Porthladd Aberdaugleddau




# Adroddiad Blynyddol 2025



*Rhedeg prif borthladd ynni y du yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol*

mhpa.co.uk







# Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Porthladd Aberdaugleddau, rwy'n falch o edrych yn ôl ar flwyddyn lle mae'r Porthladd wedi parhau i ddangos gwydnwch, diben a manteision clir stiwardiaeth hirdymor. Mae Datganiad y Prif Weithredwr, Tom, yn tynnu sylw at gryfder ein perfformiad gweithredol yn 2025, ac rydw i eisiau rhoi'r llwyddiant hwnnw yng nghyd-destun ehangach ein cyfrifoldebau fel porthladd ymddiriedolaeth ac fel ceidwaid Dyfrffordd Aberdaugleddau mewn blwyddyn â'n gwelodd ni'n adennill ein safle fel trydydd porthladd mwyaf y DU*.



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi pwysleisio o'r newydd bwysigrwydd sefydlogrwydd, buddsoddiad strategol a chydweithredu. Nid yw ein twf parhaus wedi'i gyflawni trwy hap a damwain, ond trwy ddewisiadau pwrpasol, ac mae'n adlewyrchu ein hagwedd hirdymor – un sy'n blaenoriaethu ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid niferus. Fel porthladd ymddiriedolaeth, rydym wedi ymrwymo i'n mandad i wneud yn siŵr ein bod yn trosglwyddo'r Porthladd i genedlaethau'r dyfodol mewn cyflwr gwell. Rydym yn gwneud hyn trwy sicrhau bod twf cyfrifol, stiwardiaeth amgylcheddol a ffyniant i'r cymunedau sy'n dibynnu ar y Ddyfrffordd yn greiddiol i'n proses o wneud penderfyniadau.




Parhawyd â'n rhaglen datblygu seilwaith sylweddol ac ehangu busnes, gan fuddsoddi £18.0m yn 2025 (yn dilyn £27.4m yn 2024) – ond mae'n ymwneud â mwy na chreu gofod a chyfleusterau; mae'n ymwneud â buddsoddi yn ein gallu, ein pobl a'n cymuned. O gwch peilot newydd i ofod swyddfa a gwaith newydd, mae ein buddsoddiadau yn seiliedig ar sicrhau bod ein hased mwyaf, ein pobl, yn gallu ffynnu fel eu bod yn cyflawni disgwyliadau ein cwsmeriaid yn ddiogel ac yn effeithlon, gan gefnogi ei gilydd ar yr un pryd.

---

* Ar sail tunelledd cargo. Canfyddiadau dros dro yr Adran Drafnidiaeth (i'w cadarnhau ym mis Gorffennaf 2026)




Rydym hefyd wedi ehangu ein tîm peilotiaeth 35% dros y 5 mlynedd diwethaf. Rydym yn falch iawn o hyn. Ochr yn ochr â chydweithredu gwell â'n cwsmeriaid, a phrosesau mwy effeithlon, mae hyn wedi bod yn ffactor allweddol wrth gyflawni dros 98% o argaeledd gwasanaeth i gwsmeriaid y Ddyfrffordd. Ar yr un pryd, rydym wedi cynnal ein hymroddiad i hyfforddi a datblygu sgiliau ar draws y busnes. O ran ein cymunedau, buddsoddwyd bron i hanner miliwn o bunnoedd mewn mentrau sy'n cryfhau'r defnydd diogel a phleserus o'r Ddyfrffordd, gan feithrin cymuned fedrus a hyderus, ac amgylchedd cynaliadwy a gwydn.

Rwy'n arbennig o falch o'n hymrwymiad parhaus i bobl ifanc ar draws ein cymuned. Eleni, rydym wedi buddsoddi ymhellach mewn mentrau sy'n agor drysau, yn datblygu sgiliau ymarferol a phersonol ac yn cysylltu pobl ifanc ag esiamplau cadarnhaol o ystod eang o ddiwydiannau. Mae'r rhaglenni hyn yn ymwneud â mwy na dim ond paratoi gweithlu'r dyfodol, maen nhw'n ymwneud â sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle, yr hyder a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn bywyd. Trwy feithrin potensial heddiw, rydym yn helpu i adeiladu cenhedlaeth wydn, uchelgeisiol a chynhwysol ar gyfer yfory.

Un o nodweddion diffiniol 2025 oedd cryfder ein partneriaethau ar draws hyd a lled tirwedd ynni'r DU. Rydym wrth wraidd diogelwch ynni'r genedl, ac mae ein rôl o ran cefnogi symudiad parhaus, diogel ac effeithlon tanwyddau hanfodol i'n cwsmeriaid ynni sefydledig yn parhau i fod yn hollbwysig – nid yn unig ar gyfer yr economi sydd ohoni, ond ar gyfer y sefydlogrwydd a'r gwydnwch sydd yn mynd i fod yn angenrheidiol i'r wlad am ddegawdau i ddod. Trwy weithio'n agos gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, cwsmeriaid ynni sefydledig a datblygwyr ynni cynyddol amlwg, gallwn sicrhau bod y seilwaith a'r manteision strategol sydd wedi eu meithrin dros genedlaethau yn Nyfrffordd Aberdaugleddau yn dal i wasanaethu er budd y wlad.

Dim ond oherwydd y bobl eithriadol ac ymroddedig sy'n gweithio yma y mae blwyddyn o gynnydd fel hyn yn bosibl. Ymgorfforiad o'r ymroddiad hwnnw yw unigolion fel David Barrett, aelod chweched cenhedlaeth uchel ei barch o deulu'r Porthladd, a dderbyniodd Wobr Cyfraniad Eithriadol Cymdeithas Porthladdoedd Prydain eleni. Mae'n llwyr haeddu cydnabyddiaeth o'r fath, nid yn unig am y gwaith y mae'n ei wneud yn y Porthladd ond am gryfder ei ymrwymiad i'r gymuned, ac mae'r anrhydedd yn atgof pwerus o'r arbenigedd, y teyrngarwch a'r cysylltiad cymunedol sy'n diffinio ein sefydliad.

Mae atgyfnerthu parhaus ein diwylliant yr un mor bwysig. Mae cael ein cydnabod unwaith eto fel gweithle gwych Great Place to Work™ yn arwydd clir o ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwerthoedd cyffredin ein staff. Mae eu hymroddiad i'n gwerthoedd craidd o ddiogelwch, rhagoriaeth, cydweithredu a chynaliadwyedd yn sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu llwyddiant i'r dyfodol. Rydym yn arbennig o falch i ni lwyddo i sicrhau statws 2025 UK's Best Workplaces for Women™. Mae'n anrhydedd arbennig o nodedig mewn diwydiant traddodiadol wrywaidd, ac mae'n helpu i ddangos bod swyddi porthladd yn swyddi gwych – pwy bynnag ydych chi. Mae hyn yn cael ei amlygu trwy ein rhaglen brentisiaid newydd, pan gafodd Elyse, Freddi, Isaac a Sam eu croesawu i'r busnes. Rydym yn falch o gynnig cyfleoedd i bobl o bob cefndir ac rydym wrth ein bodd eu bod wedi dewis dechrau eu bywydau ym myd gwaith trwy ystyried gyrfa gyda ni.

Wrth i ni edrych ymlaen, byddwn yn parhau i hyrwyddo twf cyfrifol, stiwardiaeth amgylcheddol a ffyniant i'r cymunedau sy'n dibynnu ar y Ddyfrffordd. Rydym yn ymfalchïo ein bod ni'n parhau i fod yn Borthladd ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

*Sian George*

Dr Siân George

**Cadeirydd**

# DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR



**Buddsoddi yn ein gallu**

Yn ystod 2025, llwyddwyd i gynnal proffidioldeb (£6.9m cyn llog a threth) wrth barhau â rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol o £18.0m (ar ben £27.4m yn 2024) i ddarparu cwch peilot newydd, adnewyddu'r Ystafell Traffig Llongau, sawl pontŵn newydd ar gyfer ein cwsmeriaid pysgota masnachol y glannau*, gwaith adnewyddu sylweddol ar westy a bwyty ac adnewyddu gofod canolog ar gyfer ein timau cymorth yn Sybil House.




Fe fyddwn i'n disgrifio 2025 fel blwyddyn arall o berfformiad cadarn; un lle mae cyflenwi gwasanaethau a gwydnwch ein busnes wedi dal ati i wella. Gwelwyd twf refeniw am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, a bu'n flwyddyn arall o elw cryf.

Ar y Ddyfrffordd yn 2025, gwelwyd twf o 11% mewn tunelledd gros, twf o 17% yng nghyfanswm symudiadau cargo, ac argaeledd gwasanaeth o dros 98% i gwsmeriaid ein gwasanaethau peilotiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion hyn yn cadarnhau bod ein rhaglen fuddsoddi i ehangu a chryfhau ein gallu peilotiaeth yn cyflawni buddion go iawn ac yn ein helpu i symud ymlaen tuag at ein huchelgais o statws porthladd o'r radd flaenaf.

Mae cynnal gweithrediadau diogel yn gyson wedi bod yn gytgan ddi-baid i'n holl ymdrechion. Rhaid i ni sicrhau bod ein pobl – a phawb arall hefyd – yn aros yn ddiogel wrth ryngweithio â ni. Mae'r buddsoddiad parhaus hwn mewn diogelwch i'w weld ar ei fwyaf amlwg yn ein cwch peilot newydd. Cafodd lansiad a threialon môr y cyntaf o'n cychod peilot injan jet ganmoliaeth gynnar gan ein criwiau gweithredol a'n tîm cynnal a chadw. Bydd y cwch blaengar hwn yn ymuno â'n fflyd yn ystod tri mis cyntaf 2026; mae'n symbol o'n hymrwymiad i wella ein gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn barhaus. Daliwyd ati hefyd i fuddsoddi yn ein cyfleusterau a'n seilwaith morol, a chynnal rhaglen recriwtio a hyfforddi gadarn i gynyddu maint a sylfaen sgiliau ein tîm morol.

Er bod gennym ddyletswydd gofal i symudiadau llongau masnachol ar y Ddyfrffordd, nid yw'n gyfyngedig i hynny. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch defnyddwyr hamdden hefyd; o nofwyr traeth i badlfyrddwyr, o ddeifwyr i geufadwyr, o hwylwyr cychod bach i gychod modur. Mae pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw; ni waeth beth yw'r gweithgaredd, mae'n rhaid i ddefnyddwyr ymddwyn yn y fath fodd i gadw eu hunain a phawb arall ar y Ddyfrffordd yn ddiogel. Mae cadw'n ddiogel yn ymwneud â chael yr offer a'r hyfforddiant cywir, ac mae'n hollbwysig deall y rheolau a'r rheoliadau lleol hefyd. Mae'r rhain ar gael yn www.mhpa.co.uk/leisure ac yn ein tablau llanw.

---

* £1.4m o gyllid gan Gronfa Bwyd Môr y DU Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Trwy gydol 2025, rydym wedi parhau i archwilio ac eirioli dros gyfleoedd ynghlwm wrth ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio. Yn ogystal â chydysgrifennu Prosbectws Porthladdoedd Cymru ar gyfer Gwynt ar y Môr a chynllun gweithredu gyda Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer canolfan cadwyn gyflenwi ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yng Nghei Criterion (ger Porthladd Penfro) fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i greu porthladd sy'n barod am ynni'r dyfodol. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y gweithgaredd hwn â'n rôl o ran sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd, y mae disgwyl iddo gael effaith gatalytig ar fuddsoddiad lleol, swyddi a ffyniant dros y degawdau i ddod. Rydym yn glir iawn o ran ein hagwedd nad oes rhaid i drawsnewid ynni ar y Ddyfrffordd ddigwydd ar draul cwsmeriaid presennol a gweithlu cyfredol Sir Benfro. Mae'n rhaid i ni baratoi ar gyfer yfory, ond nid ar draul swyddi a ffyniant heddiw.



Er gwaethaf blwyddyn heriol arall ar draws y sectorau lletygarwch a manwerthu, parhaodd Glannau Aberdaugleddau i ddangos ei bwysigrwydd fel sbardun i swyddi lleol, twf economaidd a bywiogrwydd cymunedol. Mae niferoedd ymwelwyr cadarn, digwyddiadau llwyddiannus a chydweithrediad agos â busnesau tenant yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn twristiaeth fel conglfaen i ddyfodol y rhanbarth.

Rydym yn deisyfu bod yn gyflogwr o ddewis yn y Gorllewin fel ein bod ni'n gallu denu a chadw pobl wych a fydd yn plesio ein cwsmeriaid, yn cefnogi ein cymunedau ac yn tyfu ein busnes. Mae esblygiad diwylliannol ein tîm Porthladd wedi parhau, ac roedd yn wych sicrhau achrediad gweithle gwych Great Places to Work™ am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r ffaith bod cymaint o'n tîm (sydd ar ei fwyaf erioed) wedi teimlo rheidrwydd i ymateb i'r arolwg mewn termau mor gadarnhaol yn gymaint o galondid.

Rwy'n credu bod yr ymgysylltiad hwn yn dangos bod ein gwerthoedd craidd o ddiogelwch, rhagoriaeth, cydweithredu a chynaliadwyedd yn cydweddu'n dda ac yn adlewyrchu gwerthoedd ein staff. Cymerwyd y cam allweddol o adleoli ein timau cefnogi i un lleoliad yn Sybil House hefyd, sydd nid yn unig yn cyflawni canlyniadau gwych o ran cydweithio, ond hefyd yn helpu i adfywio ochr orllewinol Dociau Aberdaugleddau. Bydd ein cynlluniau i wella cyfleusterau ar draws ein gweithleoedd yn parhau yn 2026. Rydym yn gofyn llawer gan ein gweithwyr gwych, ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Gorau oll os yw gweithle'n gallu ysbrydoli hefyd.



Mae cynaliadwyedd wedi bod yn un o werthoedd craidd y sefydliad ers tro byd. Fel porthladd ymddiriedolaeth, rydym yn cydnabod bod modd dehongli'r term mewn gwahanol ffyrdd. I ni, mae'n cael ei ddiffinio trwy weithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ffyniant economaidd, yn cryfhau gwydnwch amgylcheddol ac yn sicrhau bod cymunedau lleol, cwsmeriaid a natur yn rhannu buddion ein porthladd ffyniannus. Mabwysiadwyd tair egwyddor arweiniol yn 2025: Pobl, y Blaned a Ffyniant, gan ein helpu i ddod â'r edefynnau hynny at ei gilydd. Maen nhw'n tynnu sylw at ein hymrwymiad i ddiogelu ein cynefinoedd naturiol, ein staff, ein cwsmeriaid a'n cymunedau, a chenedlaethau'r dyfodol.

Wrth i 2025 dynnu tua'i therfyn ac wrth i 30 mlwyddiant trychineb y Sea Empress agosáu, rydym wedi myfyrio'n ddwys ar bwysigrwydd anferthol ein gwaith beunyddiol. Rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldebau i symud llongau yn ddiogel ar y Ddyfrffordd. Felly, wrth i fi edrych yn ôl ar y penderfyniadau buddsoddi a wnaethpwyd yn 2025 i gryfhau ein galluoedd ymhellach, rwy'n cael cysur o feddwl bod y gwersi a ddysgwyd yn nyddiau tywyll Chwefror 1996 yn llywio ein gweithrediadau heddiw.

Hoffwn gynnig fy niolch diffuant i bawb a gyfrannodd at flwyddyn gref arall i'r Porthladd. I'n cwsmeriaid a'n cymunedau a'n partneriaid yn y Ddyfrffordd, diolch am eich cefnogaeth barhaus, eich cydweithrediad a'ch herio – rydych chi'n ein helpu ni i wella.

Ac i gloi, mae'r gair olaf yn mynd i'n staff; ein staff gwych; maen nhw wedi bod yn aruthrol. Ar y dŵr, yn y dociau ac ar y cei, maen nhw wedi cynnal ffocws di-ffael a phenderfynoldeb tawel a haearnaidd i gefnogi ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'n hamgylchedd. Ac maen nhw wedi gwneud hynny gyda gofal, arbenigedd ac ystyriaeth ddi-ildio. Diolch o waelod calon i bob un ohonyn nhw.

*Tom Sawyer*

Tom Sawyer
**Prif Weithredwr**




# DATGANIAD YR HARBWRFEISTR

Roedd 2025 yn flwyddyn arall o weithgaredd a thwf sylweddol i'r Porthladd. Gwelwyd cynnydd o 11% mewn tunelledd gros i 53.4m tunnell, a chynnydd o 17% yng nghyfanswm y cargo a symudwyd i 38.3m tunnell, gan adlewyrchu hyder masnachol parhaus yn y Ddyfrffordd.

Er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau peilotiaeth diogel, cyfrifol ac effeithlon, rydym wedi buddsoddi ymhellach i gryfhau ein gwydnwch gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, aeth y gwaith adeiladu rhagddo ar gwch peilot newydd o'r radd flaenaf. Mae wedi cwblhau treialon ar y môr yn llwyddiannus, ac mae disgwyl iddo gyrraedd y Ddyfrffordd yn 2026. Bydd y cwch hwn yn gwella diogelwch a gallu gweithredol yn sylweddol. Mae gwaith uwchraddio seilwaith wedi mynd rhagddo hefyd, gyda gwaith adnewyddu sylweddol i'n Gwasanaethau Traffig Llongau ac i lanfa'r peilotiaid, sydd wedi gwella ein perfformiad amgylcheddol, lles ein staff a'n capasiti cyffredinol.

Mae arloesi a chydweithredu wedi bod yn amlwg iawn trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd treialon trosglwyddo peilotiaid ar hofrennydd, tra bod trafodaethau gyda chwsmeriaid ar system archebu integredig wedi rhoi hwb i ymdrechion i symleiddio symudiadau llongau. Er mwyn gwella ein gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio a chydlynu ar draws y Ddyfrffordd cyn unrhyw ddigwyddiadau tywydd hysbys. Daliwyd ati i gynnal rhaglen weithredol o ymgysylltu â chwsmeriaid, gan sicrhau bod eu hanghenion yn parhau i gael eu deall a'u hadlewyrchu'n glir wrth bennu blaenoriaethau gweithredol parhaus. Mae hyn wedi helpu i gyfrannu at argaeledd gwasanaeth o dros 98% eleni, ac rydym yn falch iawn o fod wedi llwyddo i wneud hynny.

Roeddwn i'n arbennig o falch o weld y Porthladd yn cael ei gynrychioli ar lefel genedlaethol wrth i ni gynnal cynhadledd achub allweddol ar y cyd yn Llundain. Ymunodd Cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymyrraeth ac

Mae Porthladd Aberdaugleddau yn gyfrifol am reoli'r defnydd diogel o Ddyfrffordd Aberdaugleddau o fewn terfynau diffiniedig y porthladd. Mae Deddf Gwarchodaeth Aberdaugleddau 1983, Is-ddeddfau Harbwr Aberdaugleddau (1984) a deddfwriaeth ategol yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y cyfrifoldebau hyn ac yn rhoi awdurdod i erlyn y rhai hynny sy'n peryglu defnydd diogel o'r Ddyfrffordd. Mae Porthladd Aberdaugleddau yn parhau i weithio'n agos gyda holl ddefnyddwyr y ddyfrffordd i hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch ac ymddygiad cyfrifol ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Achub o’r Môr (SOSREP) ac arbenigwyr morwrol o bob cwr o’r DU â ni wrth i ni roi sylw i’r pwnc pwysig hwn.

Mae ein dyfrffordd gysgodol 22 milltir yn hafan ar gyfer defnydd hamdden, ac mae tîm goruchwylio’r harbwr yn cymryd rôl flaenllaw wrth helpu pobl i fwynhau’r Ddyfrffordd yn ddiogel. Lle bo angen, maen nhw hefyd yn plismona. Yn ystod 2025, cefnogwyd ymchwiliad Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau i wrthdrawiad eithriadol o ddifrifol rhwng cwch hamdden a chaiac, a chynhaliwyd ymchwiliad ar ein liwt ein hunain i ddigwyddiad mordwyo anniogel arall. Arweiniodd y ddau at erlyniad llwyddiannus yn gynnar yn 2026, ac maen nhw’n rhybudd pwysig i bob defnyddiwr fod gan bawb ddyletswydd i ymddwyn yn ddiogel ac yn gyfrifol er mwyn eu hunain, eu teithwyr a holl ddefnyddwyr eraill y Ddyfrffordd. Gofynnwn i bob defnyddiwr atgoffa eu hunain o’r rheolau a’r is-ddeddfau sydd i’w gweld yn ein tablau llanw ac yn www.mhpa.co.uk/enjoy-the-waterway, cofrestru i’n hysbysiad i forwyr, diweddaru eu hyfforddiant sgiliau a gwirio’r holl offer cyn mynd ar neu i’r dŵr. A phan fyddwch chi’n mynd ar y dŵr, cofiwch bob amser gadw llygad o’ch cwmpas, gweithredu’n gynnar i osgoi gwrthdrawiad a theithio ar gyflymder diogel bob amser. Os ydych chi’n rhan o ddigwyddiad, mae dyletswydd arnoch i roi gwybod i’r Harbwrfeistr.

*Mike Ryan*

Mike Ryan
**Harbwrfeistr**




# DIBEN, GWELEDIGAETH, GWERTHOEDD, STRATEGAETH

**Ein Diben**
Gweithredu porthladd ynni blaenllaw'r DU yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol.


**Ein Gweledigaeth**
Bod yn geidwaid balch Dyfrffordd y Ddau Gleddau bob amser; sicrhau bod pobl yn ymddiried ynom i ddarparu gwydnwch yn ddiogel, a chefnogi cymunedau arfordirol cynaliadwy ar gyfer ffyniant cenedlaethau'r dyfodol.


**Ein Gwerthoedd**
Mae gennym ffocws diwyro ar Ddiogelwch, sydd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud. Rydym yn ymdrechu i sicrhau Rhagoriaeth trwy Gydweithio, gyda chydwybod Gynaliadwy.

**Ein Strategaeth**

- Ehangu ein gallu peilota o'r radd flaenaf.
- Datblygu Glannau Aberdaugleddau fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth, diwylliant, treftadaeth a hamdden.
- Datblygu Porthladd Penfro fel porthladd amlbwrpas, sy'n barod ar gyfer ynni'r dyfodol.










# DIOGELWCH PERSONOL A DIOGELWCH SAFLE

### Diogelwch Personol

Diogelwch personol yw ein gwerth craidd sylfaenol.

Derbyniwyd datganiad o ardystiad parhaus ar gyfer ein System Rheoli Porthladd (PIMS) i nodi ei bod yn bodloni safon ISO 45001 (safon ryngwladol ar gyfer systemau rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol) yn dilyn archwiliad allanol gan Archwilwyr NQA.

Mae ein Cynllun Diogelwch Morol yn cael ei adolygu fel rhan o'r angen i gydymffurfio â Chod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol (y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd gynt). Bob tair blynedd, rydym yn ail-gadarnhau i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Cod. Cwblhawyd hyn ddiwethaf yn 2021. Yn y blynyddoedd ers hynny, rydym wedi gweithio gydag ymgynghorwyr morwrol annibynnol i gynnal archwiliadau gwirio iechyd blynyddol. Tynnodd adolygiad 2025 sylw at lawer o enghreifftiau o arferion gorau.

| Adrodd ar y Cynllun Diogelwch Morol | | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau | Camau a nodwyd: | 53 | 56 |
| | Cyfradd darged a gyflawnwyd: | 96% | 98% |
| Marina a Dociau Aberdaugleddau | Camau a nodwyd: | 13 | 15 |
| | Cyfradd darged a gyflawnwyd: | 100% | 100% |
| Porthladd Penfro | Camau a nodwyd: | 48 | amh. |
| | Cyfradd darged a gyflawnwyd: | 96% | amh. |

### Diogelwch Safle

Gan weithio gyda'n partneriaid diogelwch, cynhaliwyd ymarferion blynyddol mewn parodrwydd ar gyfer argyfwng, gan gynnwys bygythiadau seiber ochr yn ochr â bygythiadau diogelwch ffisegol mwy traddodiadol.

Gwelwyd un enghraifft nodedig o gydweithio yn 2025 pan groesawyd cynrychiolwyr Gwasanaeth Gwylwyr y Glannau yr Unol Daleithiau. Roedd yr ymweliad yn tanlinellu bod y Porthladd yn rhan o rwydwaith byd-eang prysur a bod pob porthladd yn rhannu heriau cyffredin wrth ddiogelu'r pwyntiau tramwy allweddol hyn ar ffiniau cenedlaethol. Roedd yr ymweliad yn gyfle da i rannu arferion gorau o ran sut i wella diogelwch llongau a chyfleusterau porthladdoedd.

# EIN BUSNES A'N GWEITHREDIADAU

## Ein Model Busnes

Rydym yn borthladd ymddiriedolaeth a sefydlwyd ym 1958 trwy Ddeddf Seneddol. Y Ddeddf honno, a Deddfau dilynol, sy'n ffurfio ein cyfansoddiad.

Rydym yn gweithredu ar sail fasnachol, gan godi ffioedd porthladd am ddarparu gwasanaethau gwarchodaeth a pheilotiaeth i'r llongau sy'n cyflenwi neu'n casglu cynnyrch yn y gwahanol derfynfeydd sydd wedi'u lleoli ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Mae ein gweithrediadau peilotiaeth craidd trwy'r tîm Gwasanaethau Morol bellach yn rhan o ystod amrywiol o fuddiannau busnes gan gynnwys Gwasanaethau Glannau Cei ym Mhorthladd Penfro a Marina a Dociau Aberdaugleddau, Lletygarwch a Thwristiaeth ac Eiddo Masnachol.

Fel porthladd ymddiriedolaeth, nid oes gennym gyfranddalwyr. Mae unrhyw elw yn cael ei gadw ac mae ar gael i'w ail-fuddsoddi yn y busnes fel ein bod ni'n gallu trosglwyddo'r Porthladd yn yr un cyflwr neu gyflwr well i genedlaethau'r dyfodol. Yn sgil ein llwyddiant masnachol, rydym hefyd yn gallu gwneud cyfraniadau sylweddol at elusennau.

## Ein Gweithrediadau

### Gwasanaethau Morol

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y gweithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n Gwasanaethau Morol craidd wedi cynyddu o 48 i 65 (cynnydd o 35%) sy'n dangos yr ymrwymiad i'n strategaeth o ehangu ein gallu peilotiaeth o'r radd flaenaf.

Yn ystod 2025, aeth y gwaith rhagddo ar adeiladu ein cwch peilot newydd a chynnal treialon ar y môr. Mae'r cwch 22m hwn – dyluniad gan Camarc sy'n cael ei yrru gan jet ddŵr – yn costio £5.5m, buddsoddiad sylweddol yng ngwydnwch ein gwasanaeth a'n diogelwch gweithredol. Rhoddodd treialon ar y môr yn yr Iseldiroedd gyfle i'n tîm brofi gallu'r cwch blaengar ac amryddawn hwn. Yn ogystal, cyflwynwyd rhaglen hyfforddi cychod gyriant jet ddŵr ar gyfer ein criw i ddysgu ymarferoldeb systemau a dangos sut i drafod y dechnoleg jet ddŵr. Ar ben hynny, mae'r ystafell efelychu mordwyo newydd gael ei huwchraddio a'i rhaglennu i ymdrin â nodweddion y cwch peilot newydd. Bydd hyn yn adnodd gwerthfawr ar gyfer uwch-hyfforddi pellach. Mae'r

Cynnydd o 11% mewn tunelledd gros (y metrig sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo ffioedd porthladd):

2025: 53.4m tunnell


2024: 47.9m tunnell

Cynnydd o 17% yng nghyfanswm pwysau'r cargo a symudwyd:

2025: 38.3m tunnell

2024: 32.8m tunnell






Ym mis Hydref, trefnwyd digwyddiad yn Llundain ar y cyd â Chynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymyrraeth ac Achub o'r Môr (SOSREP). Daeth y gynhadledd ag arweinwyr morwrol o bob cwr o'r DU ynghyd i archwilio heriau cyfredol, datblygiadau cyfreithiol ac arferion gorau mewn gweithrediadau adfer o safbwynt porthladdoedd


adborth gan ein tîm, gan gynnwys ein staff cynnal a chadw, wedi bod yn ardderchog ac edrychwn ymlaen at y cwch yn ymuno â'n fflyd yn 2026.

Rydym hefyd wedi cynnal gwaith uwchraddio gwydnwch pellach ar lanfa'r peilotiaid yn ein pencadlys. Dechreuodd tîm y prosiect trwy osod pontŵn a ramp mynediad newydd, ynghyd â gwelliannau i'r strwythur cyffredinol a fydd yn galluogi ein cychod i lanio yng nghysgod y lanfa, gan wella diogelwch ein criwiau ymhellach. Bydd y criw hefyd yn elwa ar waith uwchraddio ar yr adeilad lles ar y lanfa. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2026.


Cafodd ein canolfan reoli Gwasanaethau Traffig Llongau ei hadnewyddu'n sylweddol yn 2025. Roedd y gwaith yn cynnwys ailgynllunio ac adnewyddu'r to, atgyfnerthu waliau a gosod deunydd inswleiddio a ffenestri o'r radd flaenaf. Mae perfformiad amgylcheddol yr adeilad wedi gwella'n sylweddol, ac felly hefyd gysur a lles staff. Unwaith eto, mae'r buddsoddiad hwn yn rhan o'n hymrwymiad i gryfhau gwydnwch gwasanaethau a'n gallu i ymdrin â thwf traffig, ac roedd yn welliant amserol iawn yn y flwyddyn pan wnaeth Aberdaugleddau adennill ein safle fel y trydydd porthladd mwyaf yn y DU yn ôl tunelledd.

Yn ogystal â gwella'r cyfleusterau, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar welliant parhaus yn ein gweithrediadau ac wedi bod yn cydweithio â chwsmeriaid ar lefel llawer dyfnach i wella effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau i bawb. Rydym wedi gweithredu mentrau fel cydlynu cynllunio gwell ar gyfer llongau sy'n cyrraedd a gadael, a sesiynau cynllunio aml-sefydliad ar gyfer digwyddiadau tywydd i sicrhau ein bod ni i gyd yn rhannu gwybodaeth mewn modd amserol.

Mewn ymateb i'r traffig cynyddol ar ein Dyfrffordd ac, yn arbennig, digwyddiad difrifol yn 2024 pan darodd cwch cyflym yn erbyn ceufadwr yn ei arddegau, ehangwyd tîm goruchwylio'r harbwr yn 2025 gydag un llywiwr llawn amser newydd a dau gynorthwyydd tymhorol yn ymuno â'r tîm. Mae'r tîm cryfach hwn yn cynyddu ein presenoldeb ar y Ddyfrffordd, yn enwedig yn ystod yr haf, ac mae wedi cael croeso gan weithredwyr masnachol a defnyddwyr hamdden fel ei gilydd. Oherwydd natur ddifrifol y digwyddiad, cefnogwyd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn eu hymchwiliad ac roeddem yn



croesawu eu herlyniad llwyddiannus o berchennog y cwch cyflym yn gynnar yn 2026. Hwn oedd yr erlyniad cyntaf o dan gyfreithiau morwrol newydd. Bydd y deddfau newydd yn atgyfnerthu gwaith tîm goruchwylio'r harbwr i sicrhau bod gweithredwyr cychod modur bychan yn gorfod bodloni'r un safonau trwyadl â morwyr proffesiynol, gan wneud ein Dyfrffordd yn amgylchedd mwy diogel. Fe wnaethom hefyd weithio tuag at ein herlyniad ein hunain am ddigwyddiad ar wahân yn ymwneud â mordwyo anniogel ar ôl gwrthdrawiad rhwng cwch modur â llong wedi'i hangori. Erlynwyd yr achos hwn yn llwyddiannus yn gynnar yn 2026 hefyd.



## Gwasanaethau Glannau Cei

*Porthladd Penfro*

Roedd 2025 yn flwyddyn brysur i Borthladd Penfro gyda deiliadaeth glannau cei yn parhau i fod yn gryf ar y cyfan, gydag uchafbwyntiau nodedig o ran trin cargo prosiectau i gefnogi gwaith peirianneg sylweddol sy'n digwydd mewn terfynfeydd ar hyd y Ddyfrffordd. Cafodd y cydrannau enfawr ar gyfer tyrbinau gwynt newydd Dragon LNG eu trosglwyddo dros y cei a'u storio ym Mhorth 1 yn barod ar gyfer eu taith ymlaen.

Gwelwyd cynnydd strategol sylweddol, yn enwedig o ran parodrwydd ar gyfer ynni adnewyddadwy, gwella cyfleusterau morol a datblygiad parhaus cynnig Cei Criterion ynghlwm wrth gyfleoedd Porthladd Rhydd a ffermydd gwynt arnofiol ar y môr.

Daeth pwysigrwydd y derfynfa fferïau ar gyfer masnach a thraffig trawsffiniol rhwng Iwerddon a'r Deyrnas Unedig i ffocws ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd cau Porthladd Caergybi dros dro. Arweiniodd hyn at drydydd hwyliad dyddiol dros dro yn Noc Penfro pan ychwanegwyd taith o Ddulyn



i Ddoc Penfro tra roedd Caergybi allan ohoni. Roeddem yn falch o fod wedi gallu derbyn y galwad ychwanegol hwn ar y Ddyfrffordd yn ystod cyfnod prysuraf y flwyddyn, a diolch i'n holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth ymarferol yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn.

*Dociau a Marina Aberdaugleddau*

Cwblhawyd gwaith adfywio o Gronfa Bwyd Môr y DU yn 2025, dan nawdd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r prosiect wedi sicrhau gwaith uwchraddio sylweddol i seilwaith ar y glannau ac ar y dŵr, yn ogystal â gwelliannau i gyfleusterau a mynediad i'r safle. Mae'r gwaith wedi gwella effeithlonrwydd gweithredol ein tîm glannau'r dociau a chwsmeriaid pysgota, ac mae wedi'n galluogi ni i ddenu cwsmeriaid newydd sydd wedi cryfhau hyfywedd hirdymor y dociau pysgota.

Marina Aberdaugleddau yw curiad calon cyrchfan Glannau Aberdaugleddau. Aeth gwaith rhagddo i wella cyfleusterau deiliaid angorfeydd yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu lolfa bwrpasol newydd i'r deiliaid, ynghyd â chyfleusterau cawodydd gwell. Mae cynllun ar droed i ychwanegu cyfres o ystafelloedd busnes ar gyfer 2026. Bydd y gwelliannau hyn yn cefnogi ein dyhead i ennill achrediad Pum Angor Aur y Gymdeithas Porthladdoedd Cychod Hwylio (*Yacht Harbour Association*), elfen allweddol yn ein strategaeth i ddatblygu Glannau Aberdaugleddau fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth, diwylliant, treftadaeth a hamdden.








### Hamdden, Lletygarwch a Thwristiaeth

Er mai'r Marina sy'n cael ei ystyried yn ganolbwynt i Lannau Aberdaugleddau, dim ond un agwedd ydyw mewn gwirionedd. Roeddem yn falch iawn o weld Glannau Aberdaugleddau, fel cyrchfan gyffredinol, yn ennill Gwobr Dewis Teithwyr Tripadvisor 2025, gan gydnabod ei le yn y 10% uchaf o atyniadau, bwytai a llety ar Tripadvisor. Mae'n hawdd iawn wfftio anrhydedd o'r fath, ond gan ei fod yn seiliedig ar adolygiadau cyson uchel gan ymwelwyr, mae'n dystiolaeth go iawn o ymdrech ac angerdd y busnesau o amgylch Glannau Aberdaugleddau i ddarparu'r ymdeimlad o le sy'n hanfodol i gefnogi ein dyhead i wneud y lle yn gyrchfan flaenllaw i dwristiaid yng Nghymru.

Mae cyflwyno calendr cryf o ddigwyddiadau amrywiol wedi bod yn agwedd bwysig ar ein strategaeth twf ac, yn 2025, cynhaliwyd Penwythnos Glannau Aberdaugleddau am yr ail flwyddyn. Gyda phwyslais ar fwydydd, diod, anrhegion a chrefftau lleol, profodd y penwythnos yn llwyddiant ysgubol. Yn ogystal, cynhaliwyd Gŵyl y Môr gyntaf y DU ym mis Mawrth. Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Gynghrair Llythrennedd Morol Cymru fel rhan o 'Y Môr a Ni', yn cynnwys cyfres o sgyrsiau, gweithdai a gweithgareddau yn canolbwyntio ar gadwraeth a chynaliadwyedd y môr, digwyddiad a ddenodd sylw'r Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies AS, a alwodd heibio ar yr ail ddiwrnod.

Perfformiodd ein dau westy yn dda yn 2025. Mae Tŷ Milford yn parhau i fod yn borth pwysig i'r Glannau, gan danlinellu effaith bwysig y busnes llwyddiannus hwn wrth dynnu sylw at fusnesau cyfagos. Mae niferoedd gwesteion wedi bod yn gadarn trwy gydol y flwyddyn, a chynhaliwyd sawl digwyddiad untro yn yr ardal 'plaza' newydd a helpodd i roi hwb i brofiad cyffredinol ymwelwyr â Glannau Aberdaugleddau. Mae gwesty St Bride's Spa wedi bod yn destun gwaith adnewyddu sylweddol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, gydag effaith ar niferoedd y gwesteion yn sgil hynny, ond mae'r cyfleusterau sba newydd yn drawiadol ac yn atyniad gwirioneddol i gwsmeriaid newydd a'r rhai sy'n dychwelyd. Roeddem yn arbennig o falch o weld gweithredwr ein gwestai, The Celtic Collection, yn cael ei gydnabod am ei ymroddiad i brofiad y cwsmer trwy ennill Gwobr Lletygarwch yr AA am y Gwesty Gorau yng Nghymru ar gyfer 2025/26.


## Eiddo Masnachol

Croesawyd amrywiaeth o denantiaid newydd, a sicrhawyd estyniadau prydles ar gyfer dau eiddo allweddol yn Aberdaugleddau. Mae Phoenix Bowl wedi bod yn brif atyniad hamdden yng Nglannau Aberdaugleddau ers sawl degawd, felly roeddem yn falch iawn o groesawu gweithredwr newydd a chytuno ar brydles 10 mlynedd. Mae gan y perchnogion newydd gynlluniau cyffrous i ddatblygu'r hyn sy'n cael ei gynnig, cam i'w groesawu i gefnogi ein strategaeth cyrchfan, yn enwedig y ddarpariaeth o brofiadau i ymwelwyr pan fo'r tywydd yn arw yng Nglannau Aberdaugleddau. Mae Tesco, ein tenant mwyaf ym Mharc Manwerthu Havens Head, wedi ymestyn ei brydles am hyd at 45 mlynedd, pleidlais o hyder hanfodol yn rôl y parc manwerthu yn yr economi leol.

Cymerwyd ambell gam beiddgar yn ein portffolio eiddo hefyd. Trawsnewidiwyd hen gyfleuster hyfforddi peirianneg ar Ddociau Aberdaugleddau, sydd wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn, yn gartref newydd i'n timau gwasanaethau cymorth. Cyflwynodd ein tîm prosiectau amlddisgyblaethol esiampl o ystafelloedd swyddfa sy'n dangos gwerth trosi mannau segur ar gyfer defnydd modern ac mae wedi cael ei gydnabod am ei rôl wrth wella cydweithredu ar draws y busnes. Ailenwyd yr adeilad yn Sybil House, ar ôl y llong gyntaf i hwylio i Ddociau Aberdaugleddau pan agorodd ym 1888; teyrnged i dreftadaeth gyfoethog yr iard longau. Adnewyddwyd atriwm yr adeilad hefyd, ac mae ar gael at ddefnydd corfforaethol, celfyddydol a chymdeithasol a fydd yn gwella gwerth cymunedol.

Cyfrannodd y datblygiadau cadarnhaol hyn yn ein portffolio eiddo masnachol at gynnydd ailbrisio o £1.7m ar gyfer y flwyddyn, gan ddangos pwysigrwydd arallgyfeirio yn ein model busnes.






# LLE GWYCH I WEITHIO

Trwy gydol y flwyddyn, mae’r ffocws ar ein staff wedi parhau i gryfhau ein gallu fel sefydliad, i gefnogi datblygiad diwylliant ac i atgyfnerthu ein hymrwymiad i les a chydnabyddiaeth. Rydym wedi gweld cynnydd ystyrlon, ynghyd â meysydd sydd angen ffocws parhaus.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym wedi llwyddo i ennill achrediad Great Place to Work™. Unwaith eto, ymgysylltodd 90% o’n staff â’r arolwg, gan roi syniad da i ni o deimladau gweithwyr ar draws ein gweithrediadau. Cawsom ein cydnabod hefyd fel un o’r gweithleoedd gorau i fenywod (UK’s Best Workplaces for Women™) yn 2025, canlyniad pwysig mewn diwydiant traddodiadol wrywaidd. Mae bron i draean (31%) o’n staff yn fenywod. Mae ansawdd yr ymatebion a gasglwyd yn yr arolwg yr un mor bwysig â’r sgoriau. Er ein bod ni wedi sgorio’n uwch eleni na’r llynedd, rydym wedi derbyn adborth gwerthfawr am rai meysydd i ni hoelio ein sylw arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn gwneud gwelliannau pellach.

Nid oedd perfformiad eithriadol ymhlith ein staff yn gyfyngedig i’r gweithle yn unig. Rhaid crybwyll yn arbennig Aaron Hoskings, Liam Bradley a Ria Jones, y tri wedi gwneud eu marc ar y llwyfan chwaraeon rhyngwladol mewn codi pwysau, Ironman a jiwdo yn y drefn honno.




Mae cydnabyddiaeth gweithwyr wedi bod yn gyflawniad amlwg eleni. Cafwyd 111 yn fwy o enwebiadau i’n cynllun mewnol i gydnabod staff, lle mae aelodau o staff yn enwebu eu cydweithwyr am fynd gam ymhellach, weithiau yn wyneb adfyd, i wneud cyfanswm o 363 enwebiad. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol iawn o newid diwylliannol pellach tuag at gydweithredu agosach a diwylliant o werthfawrogiad sydd wedi gwreiddio’n ddwfn.

Mae ein cynllun bonws yn annog y newid diwylliannol hwn, gyda gwobrau sy’n canolbwyntio ar hyfforddiant a hunan-ddatblygiad, mwy o ryngweithio gan reolwyr a gweithgaredd cymunedol. Roedd cyfranogiad yn ein cynllun gwirfoddoli staff wedi rhagori ar y targedau eleni, a hynny o gryn dipyn (262 o ddigwyddiadau wedi’u cofnodi gyda tharged o 200). Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys glanhau traethau, gwasanaethu ar fyrddau ysgol a gwirfoddoli gydag elusennau.

Cafodd David Barrett, aelod hirsefydlog o’r tîm, ei gydnabod gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain gyda Gwobr Cyfraniad Eithriadol. Davey yw’r chweched genhedlaeth o’i deulu i weithio yn Nociau Aberdaugleddau ac mae’n adnabyddus ac yn annwyl iawn i’r holl bobl mae’n eu helpu sy’n byw, yn gweithio ac yn ymwneud â llongau a chychod yng Nglannau Aberdaugleddau a’r cyffiniau.




Roedd gweithgaredd recriwtio yn parhau’n brysur wrth i ni barhau i fuddsoddi er mwyn meithrin y sgiliau a’r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer twf yn y dyfodol. Cynyddodd ein niferoedd staff, gyda 25 wyneb newydd yn ymuno â staff y Porthladd. Ar ben hynny, cynigiwyd lle i 4 prentis, y nifer mwyaf erioed i ni, a’r treial cyntaf ar gyfer derbyn carfan flynyddol o brentisiaid.

Roedd ffigurau cadw staff yn gyson gryf, gan adlewyrchu sefydlogrwydd cyffredinol o fewn y gweithlu a’n hymrwymiad parhaus i greu gweithle dymunol a chefnogol. Cyrhaeddodd un aelod o staff 35 mlynedd o wasanaeth, gyda thri arall wedi cyrraedd chwarter canrif a phedwar arall wedi gwasanaethu am 20 mlynedd. Mae dyfnder profiad y gweithwyr hyn yn amhrisiadwy mewn diwydiant sy’n newid yn gyflym.

Mae’r cynnydd cadarnhaol hwn yn adlewyrchu buddsoddiad parhaus yn ein gweithlu, a’n hymrwymiad i greu amgylchedd cadarnhaol sy’n gweithio ar ei orau.




# CYNALIADWYEDD: POBL, Y BLANED, FFYNIANT

Fel porthladd ymddiriedolaeth, rydym yn atebol i ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys cwsmeriaid, diwydiant, y Llywodraeth a'r gymuned leol, ond ein rhanddeiliaid pwysicaf yw cenedlaethau'r dyfodol. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd ein cyfansoddiad: mae'n ddyletswydd arnom i drosglwyddo ein porthladd yn yr un cyflwr neu gyflwr gwell i genedlaethau i ddod.

Er i gynaliadwyedd fod yn un o werthoedd craidd ein busnes ers amser maith, fe wnaethom ddatblygu ein strategaeth gynaliadwyedd gyntaf yn 2025. Mae hyn yn amlinellu ymrwymiadau cadarn i'n cymunedau a'r blaned, ac yn manylu ar sut y byddwn yn dwyn ein hunain i gyfrif i'n hystod eang o gwsmeriaid a rhanddeiliaid, y mae eu hymddiriedaeth a'u partneriaeth yn hanfodol i'n llwyddiant hirdymor. Mae'r strategaeth gynaliadwyedd hon yn adeiladu ar hanes hir o gyfrifoldebau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfrifoldebau sy'n rhychwantu ein gweithlu, ein cymuned a'n cwsmeriaid, sy'n dibynnu arnom ar gyfer gweithrediadau diogel ac effeithlon sy'n ystyried y dyfodol, ac ar y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi crynhoi o gwmpas meysydd Pobl, y Blaned a Ffyniant ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod y tair hoelen wyth hyn wrth wraidd ein cynllunio a'n penderfyniadau.

**Buddsoddi yn ein cymunedau:**

Buddsoddwyd bron i hanner miliwn o bunnoedd mewn mentrau cymunedol sy'n hybu defnydd diogel a phleserus o'r Ddyfrffordd, gan feithrin cymuned fedrus a hyderus ac amgylchedd cynaliadwy a gwydn.

Rydym yn creu cyfleoedd yn rheolaidd ar gyfer ymgysylltu dwyffordd â'n rhanddeiliaid ac yn gwerthfawrogi eu mewnbwn i'n strategaeth. Wrth i ni fynd ati i sicrhau bod y porthladd hwn yn cael ei drosglwyddo mewn cyflwr gwell i genedlaethau'r dyfodol, mae'n bwysig ein bod ni'n deall barn unrhyw un sy'n defnyddio'r porthladd, sy'n gysylltiedig â'r porthladd neu sy'n dibynnu arno am fywoliaeth. Ochr yn ochr â rhaglen eang o weithgareddau ymgysylltu penodol, ein Cyfarfod Rhanddeiliaid Blynyddol yw ein prif adnodd ar gyfer dod â phawb at ei gilydd. Cynhaliwyd y cyfarfod ym Mhorthladd Penfro eleni, gyda diwrnod agored i gyd-fynd â'r achlysur lle roedd rhanddeiliaid yn gallu gweld y tu ôl i'r llenni a chwrdd ag aelodau eraill o'n tîm, yn ogystal â'r nifer o fusnesau eraill sy'n helpu i gadw'r porthladd yn rhedeg yn rhwydd.

## Pobl: Ymgysylltu â'n cymunedau

Mae ein cefnogaeth gymunedol yn canolbwyntio ar dair thema allweddol:

1. *Dyfrffordd ddiogel, gynhwysol a phleserus*

Fel ceidwad y Ddyfrffordd, rydym eisiau annog mwy o bobl i fwynhau mannau glas yn ddiogel. Addysg yw'r ffordd orau o hyd i wella diogelwch ar y dŵr ac wrth y dŵr. Mae tîm goruchwylio'r harbwr yn chwarae rôl hanfodol ar y dŵr, gan helpu i gynghori defnyddwyr ar sut i gadw'n ddiogel.



Cefnogwyd dros 500 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o 11 ysgol gynradd i fynychu gweithdai Nofio Diogel (‘Swim Safe’) yn ystod y flwyddyn er mwyn dysgu sgiliau achub bywyd pwysig. Wedi’u cyflwyno gan Windswept CIC, cynhaliwyd y sesiynau Nofio Diogel ar draethau Dale a Gelliswick. Rydym hefyd wedi cefnogi Paddle West i gyflwyno rhaglen o sesiynau diogelwch dŵr hwyliog yng Nglannau Aberdaugleddau dros yr haf, gan helpu i wreiddio sgiliau diogelwch dŵr craidd. Roeddem yn falch iawn o allu gweithio gyda Blue Horizons i alluogi pobl o bob gallu a chefndir i fynd ar y Ddyfrffordd trwy ddefnyddio eu cwch addasedig, yn ogystal â chefnogi eu rhaglen syrffio hygyrch dros yr haf.

Enillodd ein Prif Swyddog Ariannol, Jonathan Chitty, wobr Cynghorydd Gorau yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru am ei waith fel Ymddiriedolwr Bwrdd gwirfoddol a Thrysorydd ar gyfer yr elusen leol, SPAN Arts. Roedd yr amser a roddwyd gan Jonathan yn rhan o bolisi gwirfoddoli 12 awr y Porthladd, sy’n galluogi staff i gefnogi twf cymunedol yn uniongyrchol.

2. *Cymuned fedrus a hyderus, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc*

Rydym wedi adnewyddu ein partneriaeth hirdymor gyda Milford Youth Matters. Mae’r elusen yn darparu cyfleoedd cymorth a datblygu trwy gydol y flwyddyn, digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, ynghyd â mynediad at brydau poeth a lle cynnes, diogel yn ystod y misoedd oerach, i bobl ifanc 14-25 oed. Roedd ein prosiect cydweithredol arobryn ‘Under the Bridge’ yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau am ddim dros yr haf, gan gynnwys chwaraeon, gweithdai creadigol, cyfleoedd gwirfoddoli a gemau, ynghyd â lluniaeth a lle diogel i ymlacio.

Ymhlith y grwpiau elusennol eraill a gefnogwyd yn 2025 roedd Megan’s Starr Foundation, sy’n cefnogi pobl ifanc ac yn codi ymwybyddiaeth o fwlio ac iechyd meddwl. Trwy ariannu dros 300 awr o gymorth cwnsela i bobl ifanc Sir Benfro, rydym yn helpu i sicrhau eu bod yn derbyn cymorth proffesiynol yn gyflym.

Rydym hefyd wedi parhau â’n cefnogaeth uniongyrchol i Lyfrgell Aberdaugleddau, yn Cedar Court. Mae hwn yn gyfleuster pwysig iawn i’n cymuned ac, yng nghanol pryder cynyddol am ostyngiad lefelau llythrennedd ymhlith pobl ifanc, rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda Chyngor Sir Penfro i alluogi mynediad hawdd at lyfrau ac adnoddau eraill.

Rydym wedi parhau i gefnogi Theatr y Torch yn 2025, gan helpu un o gonglfeini diwylliannol Sir Benfro i gefnogi’r gymuned a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc y tu allan i ddisgyblaethau academaidd neu chwaraeon traddodiadol. Cafodd ein gwaith gyda Theatr y Torch ei gydnabod yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru ym mis Mehefin, gan ennill y categori Celfyddydau, Busnes a Chymuned.

Derbyniodd 17 o staff y porthladd her gerdded arfordirol o 40 milltir, gan gerdded o Angle i Benrhyn Santes Ann dros dau ddiwrnod. Codwyd cyfanswm o £15,000 i’w rannu rhwng Cymdeithas Alzheimer, Sefydliad y Galon a Young Lives vs Cancer.

Roedd partneriaethau llwyddiannus eraill sy’n canolbwyntio ar ddatblygu, addysg a chyfleoedd ieuenctid yn cynnwys nawdd parhaus Gwobr Dug Caeredin fel aelod Cyswllt Aur yn 2025.

Dathlodd SPARC Alliance, menter sy’n cael ei chefnogi gan y Porthladd gyda’r nod o rymuso menywod ifanc i ystyried gyrfaoedd ym meysydd STEM, flwyddyn gyntaf hynod lwyddiannus yn 2025. Cofrestrodd 172 o ferched ar y rhaglen sy’n canolbwyntio ar y sectorau ynni ac adeiladu. Cyflwynodd Coleg Sir Benfro dros 90 o sesiynau ymgysylltu, o gynllunio platfformau gwynt arnofiol i weldio.




Aelodau eraill y Gynghrair yw RWE, Blue Gem Wind, Floventis, Ledwood Engineering, Cyngor Sir Penfro a Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Roeddem yn falch o gefnogi darpar fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs cyn-Gadetiaeth Peirianneg Forol Uwch yng Ngholeg Sir Benfro trwy noddi gwisgoedd myfyrwyr ar gyfer eu taith i Ysgol Forwrol Warsash. Mae'r Porthladd yn ganolfan fyd-eang bwysig i'r diwydiant morwrol ac mae angen meithrin y cysylltiad hir a nodedig sydd ganddo â'r llynges fasnachol yn ein cymunedau.

Mae nifer o staff y Porthladd yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith cymorth cymunedol, trwy weithredu fel llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd lleol a Choleg Sir Benfro, ac fel ymddiriedolwyr elusennau lleol. Mae'r Porthladd yn cefnogi ac yn annog staff i ddarparu'r lefel hon o gefnogaeth a mewnbwn i'r gymuned.

### *3. Amgylchedd cynaliadwy a gwydn*

Rydym wedi dal i gefnogi a gweithio gyda rhanddeiliaid sy'n rhannu ein cyfrifoldeb a'n hymrwymiad i sicrhau bod y rhyfeddodau naturiol yn ardal y Ddyfrffordd a'r arfordir yn cael eu diogelu a'u gwella.

Rydym hefyd wedi parhau i gyfrannu a chefnogi Grŵp Gwyliadwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau. Ers dros 30 mlynedd, mae'r Grŵp wedi casglu data pwysig ar gynefinoedd morol a

Mae chwarter canrif ers i ni groesawu Swyddog ACA Morol Sir Benfro, Sue Burton, fel rhan o'n cefnogaeth i'r gwaith cadwraeth hanfodol mae hi'n ei wneud. Mae profiad a brwdfrydedd Sue wedi bod o fudd mawr i'r holl grwpiau sy'n cefnogi ymdrechion cadwraeth ar y Ddyfrffordd, yn ogystal

bywyd gwyllt y Ddyfrffordd. Mae'r wybodaeth hon yn ei gwneud hi'n bosibl nodi tueddiadau a newidiadau sy'n llywio ein holl waith.

Rydym hefyd wedi cefnogi Cymbrogi Futures i gyflwyno'r rhaglen 'Tomorrow's Changemakers Hackathon' ar gyfer ysgolion. Ar ôl dechrau gyda phrosiectau beiddgar a doeth o ran yr hinsawdd gan 1,000 o ddysgwyr o bob cwr o'r De, daeth y syniadau gorau benben â'i gilydd yn y rownd derfynol yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ym mis Tachwedd.

## Y Blaned: Ein hamgylchedd

Mae porthladdoedd, ac yn enwedig porthladdoedd sy'n ganolog i ddiogelwch ynni'r DU, yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatgarboneiddio'r genedl. Rhan allweddol o hynny yw deall ein hallyriadau ein hunain yn well. Rydym yn cyfrifo ac yn adrodd ar allyriadau cwmpas 1 (uniongyrchol) a chwmpas 2 (trydan a brynwyd yn anuniongyrchol) bob blwyddyn.

Roedd cyfanswm yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd gennym yn 2025 yn agos at 5 awr gigawat, gan osgoi rhyddhau bron i 900 tunnell o allyriadau sy'n cyfateb i CO2 i'r atmosffer.

| Ffynhonnell allyriadau | Allyriadau 2025 ($tCO_2e$) | Allyriadau 2024 ($tCO_2e$) |
|---|---|---|
| **Cwmpas 1** | | |
| Diesel | 1484.29 | 1238.79 |
| Petrol | 11.67 | 10.80 |
| Nwy naturiol | 80.39 | 88.84 |
| Propan | 0.00 | 0.65 |
| Biomas | 1.80 | 1.31 |
| **Cyfanswm Cwmpas 1** | **1578.15** | **1340.39** |
| **Cwmpas 2** | | |
| Trydan a brynwyd (seiliedig ar leoliad) | 204.46 | 279.46 |
| Trydan a brynwyd (seiliedig ar y farchnad)* | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 (seiliedig ar leoliad)** | **1782.61** | **1619.85** |
| **Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 (seiliedig ar y farchnad)*** | **1578.15** | **1340.39** |
| **Dwyster carbon**** | **2025** | **2024** |
| Dwyster carbon ($tCO_2e$/£1m o drosiant gros) | **34.94** | **31.03** |
| | Trosiant gros o £45.2m | Trosiant gros o £43.2m |
| **Cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle** | **2025** | **2024** |
| Cyfanswm yr ynni a gynhyrchwyd (KwH) | 4,963,465.00 | 3,058,236.00 |
| Allyriadau wedi eu hosgoi ($tCO_2e$) | 878.53 | 633.21 |
| % o gyfanswm allyriadau cwmpas 1 a 2** | 55.67 | 47.24 |

* Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar y farchnad, mae'r cynllun Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) yn ardystio bod y trydan a brynwyd wedi'i gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy ac, o'r herwydd, mae ganddo ddwyster carbon o sero.

** Cyfrifwyd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar y farchnad.

Ar ôl cyfrifo ôl troed carbon cynhwysfawr cyntaf y Porthladd i gynnwys allyriadau cwmpas 3 (cadwyn gwerthoedd anuniongyrchol) yn 2024, aethom ati i fodelu a gosod targedau i leihau allyriadau yn 2025. Gan ddefnyddio 2023 fel ein blwyddyn sylfaen, gyda chyfanswm o 13,319.6 tCO2e (wedi'i gyfrifo trwy ddull sy'n seiliedig ar y farchnad), ein huchelgais yw cyflawni gostyngiad o 63% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2035, gan gyflawni sero net erbyn neu cyn 2050.

Rydym yn parhau i arwain a chydweithio â phartneriaid i ddiogelu'r Ddyfrffordd. Mae grwpiau fel Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig (SACRAG) a Grŵp Gwyliadwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau (MHWESG) yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gwneud eu gorau glas i ddiogelu a gwella cynefinoedd ac ansawdd dŵr yn ardal y Ddyfrffordd. Cydweithredu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o sicrhau canlyniadau ystyrlon mewn porthladd mor brysur, lle mae cymaint o weithgaredd dynol amrywiol yn cydfodoli mewn tirwedd naturiol fyd-enwog.

## Ffyniant: Yma i'r dyfodol

Nod ein ffocws ar ffyniant yw sicrhau y byddwn ni yma yn y dyfodol; dyna yw sylfaen ein busnes.

Er mwyn bodloni ein huchelgeisiau ar gyfer Busnes Cyfrifol, Llywodraethu Da a Gwydnwch, rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth atebol, cywir a dibynadwy sy'n hyrwyddo ffyniant i bawb. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Cynnal busnes teg a chyfiawn**
- **Cynnal y safonau uchaf o lywodraethu a thryloywder**
- **Meithrin gweithrediadau cadarn ac addasadwy ar gyfer llwyddiant hirdymor.**

Yn yr adroddiad blynyddol hwn, nodwn yr agweddau hollbwysig hyn ar ein busnes a'n gweithrediadau. Mae Datganiadau'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn tynnu sylw at berfformiad y busnes yn 2025 a sut rydym wedi cyflawni ein nodau. Mae Datganiad yr Harbwrfeistr yn myfyrio ar ein maes busnes craidd, symud llongau (a phobl) yn ddiogel ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau, ac mae Datganiad ein Prif Swyddog Ariannol yn dangos ein heffeithlonrwydd ariannol.

Fel rhan o'r Strategaeth Cynaliadwyedd, rydym wedi nodi cwsmeriaid, diwydiant a llywodraeth fel cynulleidfaoedd allweddol ar gyfer cyflawni ffyniant.

### Ymgysylltu â Chwsmeriaid

Mae ymgysylltu â chwsmeriaid yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth atgyfnerthu ymddiriedaeth, gwella perfformiad gweithredol a chefnogi twf masnachol cynaliadwy ar draws y sefydliad.

Gweithrediadau morwrol sy'n cael y flaenoriaeth bennaf o hyd, ac rydym wedi parhau i gynnal fforwm Dyfrffordd gyfan ar gyfer cydweithio â therfynfeydd ac asiantau i sbarduno gwelliannau mewn effeithlonrwydd, dibynadwyedd a safonau gweithredol cyffredin.

Ym Mhorthladd Penfro, roedd y gweithgaredd ymgysylltu yn canolbwyntio ar wella'r berthynas â chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid i gefnogi datblygiad busnes ar draws eiddo masnachol, cargo a'r sector ynni cynyddol amlwg.

Ar draws Glannau Aberdaugleddau a Marina Aberdaugleddau, roedd ymdrechion yn canolbwyntio ar gyfathrebu cliriach i ddeall anghenion cwsmeriaid yn well ac i gryfhau ein cynnig a'n perthnasoedd.

### Ymgysylltu â Diwydiant a Llywodraeth

Trwy gydol y flwyddyn, ymgymerwyd â rhaglen helaeth o ymgysylltu â diwydiant a llywodraeth i gryfhau perthnasoedd, dylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau a hyrwyddo pwysigrwydd strategol Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Roedd yr ymgysylltu yn cynnwys croesawu a chwrdd â gwleidyddion trawsbleidiol o'r DU a Chymru i arddangos seilwaith allweddol, trafod cyfleoedd datblygu yn y dyfodol a thynnu sylw at rwystrau i fuddsoddiad. Yn ogystal, bu uwch arweinwyr y Porthladd yn cyfranogi mewn digwyddiadau cenedlaethol mawr gan gynnwys Wythnos Llongau Rhyngwladol Llundain, Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru, Cynadleddau Llafur Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a chyfarfod cyffredinol blynyddol a derbyniad seneddol Cymdeithas Porthladdoedd Prydain.

Cyfrannwyd at sawl trafodaeth bwysig ar bolisi. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd bord gron Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ymgysylltu â grwpiau seneddol hollbleidiol ar ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Senedd i Borthladd Caergybi, a chynnal ymweliadau gan Bwyllgor Diogelwch Ynni a Sero Net Senedd y DU a swyddogion Llywodraeth y DU fel rhan o waith ymgyfarwyddo â'r Porthladd Rhydd Celtaidd. Yn ogystal, noddwyd seminar Diwydiant Sero Net Cymru sy'n edrych ar sut y gallai strategaeth ddiwydiannol y DU gefnogi busnesau yn Sir Benfro.

Buom yn monitro ac ymateb i gyhoeddiadau polisi allweddol Llywodraeth y DU, gan gynnwys strategaeth 2026 ar gyfer cyflawni allyriadau sero net ym maes morgludiant, a chynigion diwygio rheoleiddiol y Llywodraeth, gan sicrhau bod ein barn yn cael ei hadlewyrchu wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol.



# DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL

## Perfformiad Ariannol

| | 2025 | | 2024 |
|---|---|---|---|
| | £m | % cynnydd/ (gostyngiad) | £m |
| Trosiant | 45.2 | 4.6% | 43.2 |
| EBITDA** | 9.2 | (16.4)% | 11.0 |
| Elw cyn llog a threth | 6.9 | 13.1% | 6.1 |
| Llif arian parod o weithgareddau gweithredu | 12.5 | 50.6% | 8.3 |
| | | | |
| Cyfaint cargo (tunelli) | 38.3m* | 17% | 32.8m |
| Llongau sy'n destun taliadau (tunelledd gros) | 53.4m | 11% | 47.9m |
| Symudiadau llongau sy'n destun taliadau (nifer) | 1921 | 1% | 1,893 |

* Rhif dros dro ar gyfer 2025 (disgwylir y ffigur terfynol yn Haf 2026).
** Mae EBITDA yn cael ei gyfrifo fel elw gweithredol ynghyd â dibrisiant ac amorteiddio.

Mae'r Grŵp wedi cyflawni blwyddyn arall o dwf refeniw, gan adrodd trosiant uwch nag erioed o'r blaen am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Cyfanswm trosiant y Grŵp oedd £45.2m am y flwyddyn, sydd 4.6% yn uwch na lefel 2024 o £43.2m.

Profwyd twf ar draws y Grŵp, ac eithrio'r incwm o'n buddsoddiadau ynni adnewyddadwy a oedd yn is flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd pris marchnad is ar gyfer tariffau allforio.

Roedd refeniw o'n busnes craidd o ddarparu gwasanaethau gwarchodaeth a pheilotiaeth i fyny 5.0%, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn morgludiant trwy Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Y refeniw cyfunol o Dollau Llongau a Gwasanaethau Peilotiaeth oedd £25.1m (2024: £23.9m), sy'n golygu bod gweddill y Grŵp wedi cynhyrchu refeniw o £20.1m (2024: £19.3m), record arall i'r Porthladd.

Mae cael ffynonellau refeniw proffidiol cryf i ategu ein busnes craidd yn hanfodol bwysig i ni o ystyried yr ansicrwydd sy'n ein hwynebu o ran yr economi fyd-eang, a'i effaith ar forgludiant o flwyddyn i flwyddyn.

Er bod elw gweithredu i lawr ar sail blwyddyn ar ôl blwyddyn ar £5.2m (2024: £6.8m), gwelwyd gwelliant o ran elw cyn llog a threth gyda £6.9m (2024: £6.1m), diolch i enillion o £1.7m wrth ailbrisio ein heiddo buddsoddiad (2024: colled o £0.7m). Mae'r cynnydd yn adlewyrchu adnewyddiadau prydles diweddar sydd wedi arwain at brisiadau marchnad cynyddol, gan helpu i wrthdroi colledion prisio a gofnodwyd yn y cyfnodau blaenorol.

Elw cyn treth y Grŵp oedd £5.1m (2024: £4.1m) ar ôl cyfrif am gostau cyllid am y flwyddyn. Yr elw ar gyfer y flwyddyn ariannol yw £3.7m (2024: £1.9m) ar ôl taliadau treth o £1.4m (2024: £2.2m).

## Llif arian, buddsoddiadau a chyllid

Cynhyrchodd y Grŵp lif arian o £12.5m o weithgareddau gweithredu yn 2025 (2024: £8.3m), sy’n bwysig ar gyfer ariannu ein rhaglen buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys y cwch peilot newydd, adnewyddu ein hystafell reoli Gwasanaethau Traffig Llongau, ychwanegu pontŵn pwrpasol newydd yn Nociau Aberdaugleddau ar gyfer ein cwsmeriaid pysgota môr masnachol a gwaith adnewyddu sylweddol ar y gwesty a’r bwyty a brynwyd yn 2024. Yn 2025, buddsoddwyd £16.5 miliwn (2024: £13.5 miliwn) a ariannwyd yn rhannol trwy grantiau o £1.4 miliwn (2024: £1.2 miliwn) ond a ariannwyd yn bennaf gan yr arian a gynhyrchwyd o’n gweithrediadau a chynyddu ein benthyca o dan ein cyfleusterau ariannu ymrwymedig. Cynyddodd benthyciadau’r grŵp o £7.7m (2024: £2.5m) yn ystod y flwyddyn, gan gynyddu cyfanswm ein benthyciadau i £25.2m ar 31 Rhagfyr 2025 (2024: £17.5m). Sefyllfa dyled net y Grŵp ar ddiwedd y flwyddyn oedd £20.7m (2024: £15.3m). Mae’r Porthladd wedi ymrwymo i roi cyllid ar waith tan 2028.

**Cynnal proffidioldeb**

Er gwaethaf rhai heriau, rydym nid yn unig wedi cynnal proffidioldeb (£6.9m cyn llog a threth) ond hefyd wedi parhau i fuddsoddi’n helaeth (£16.5m yn 2025) yn y gwaith o uwchraddio a diogelu’r Porthladd i’n gweithwyr, ein cwsmeriaid a chenedlaethau’r dyfodol.

## Rhagolwg

Mae’r marchnadoedd ynni byd-eang sydd i raddau helaeth yn pennu refeniw ein gweithgaredd gwasanaethau peilotiaeth craidd yn gymharol sefydlog, ond mae cyfnodau anwadal yn bosibl oherwydd dynameg y farchnad a digwyddiadau geowleidyddol. Ar ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad hwn, mae gweithgaredd marchnad sylweddol oherwydd y gwrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau, Israel ac Iran, felly er bod tarfu yn bosibl, rydym ar hyn o bryd yn rhagweld lefelau tebyg o weithgaredd morgludiant yn 2026 i’r hyn a gyflawnwyd yn 2025.

Er bod yr amgylchedd geowleidyddol yn parhau’n gyfnewidiol, mae isafswm gwarantau refeniw ar waith sy’n rhoi rhywfaint o wydnwch ariannol i ni os yw’r galw am forgludiant byd-eang neu ranbarthol yn gostwng yn ddramatig. Mantais arall yw’r ffrydiau refeniw amrywiol a chryf sydd yn eu lle, gan gyfrif am gyfartaledd o 44% o drosiant y Grŵp dros y tair blynedd blaenorol (2023-2025).

Yn 2026, rydym yn edrych ymlaen at weld effaith ein buddsoddiadau diweddar i sicrhau gwasanaeth gwell i’n cwsmeriaid gan ein cwch peilot newydd (sy’n cyrraedd yn ystod tri mis cyntaf 2026) i refeniw cynyddol o’n gwesty yn dilyn y buddsoddiadau a wnaed yn 2025 gan arwain at gydnabyddiaeth wych trwy ennill Gwesty y Flwyddyn Cymru 2026/27 yng Ngwobrau Lletygarwch yr AA.

*Jonathan Chitty*

Jonathan Chitty
**Prif Swyddog Ariannol**

Cyswllt: Datganiadau Ariannol 2025

# RHEOLI RISGIAU A’R PRIF RISGIAU

Mae’r Porthladd yn cymryd agwedd ragweithiol at reoli risg, a thrwy hynny wella’r tebygolrwydd o gyflawni ei amcanion, cynyddu amddiffyniad ei bobl a’i asedau a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Mae’r cyfrifoldeb dros reoli risg ar ysgwyddau’r Bwrdd, gyda goruchwyliaeth wedi’i ddirprwyo i’r Pwyllgor Archwilio a Risg sy’n hwyluso rheolaeth effeithiol ac adrodd rheolaidd trwy’r system rheoli risg fewnol.

Mae risgiau yn cael eu hadolygu’n barhaus yn erbyn matrics risg y Porthladd ac yn cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae’r Gofrestr honno’n cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Bwrdd bob 6 mis, ac mae hynny’n sicrhau bod y prif risgiau ac ansicrwydd sy’n wynebu’r busnes yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac, yn bwysicach fyth, y camau sy’n cael eu cymryd a’r rheolaethau sydd ar waith i liniaru eu heffaith.

| | | →→ Arwyddocâd →→ | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1<br>**Dibwys** | 2<br>**Mân** | 3<br>**Cynedrol** | 4<br>**Mawr** | 5<br>**Catastroffig** |
| ↑<br>**Tebygolrwydd**<br>↓ | **5**<br>**Aml** | **Cymedrol** | **Uchel** | **Uchel** | **Difrifol** | **Difrifol** |
| | **4**<br>**Tebygol** | **Cymedrol** | **Cymedrol** | **Uchel** | **Uchel** | **Difrifol** |
| | **3**<br>**Posibl** | **Isel** | **Cymedrol** | **Cymedrol** | **Uchel** | **Uchel** |
| | **2**<br>**Annhebygol** | **Isel** | **Isel** | **Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cymedrol** |
| | **1**<br>**Prin** | **Isel** | **Isel** | **Isel** | **Isel** | **Isel** |

**Risg dderbyniol:** risg sy’n gofyn am sylw pur anaml neu lle nad oes angen unrhyw weithredu pellach
**Risg oddefadwy,** risg sy’n gofyn am sylw a rheolaeth achlysurol
**Risg annerbyniol,** risg sy’n gofyn am liniaru brys a/neu sylw a rheolaeth barhaus

## Parodrwydd i dderbyn risg

Y Bwrdd sy’n diffinio lefel parodrwydd y Porthladd i dderbyn risg, sy’n ceisio cydbwyso sefyllfa risg rhwng:

- buddsoddi mewn gweithgareddau sy’n cymell twf sylweddol neu arallgyfeirio a allai fod â lefel o risg entrepreneuraidd, a
- yr angen i barhau i fod yn fusnes sefydlog a chynaliadwy gyda’r gallu i ddal ati i ddarparu ei ddyletswyddau a’i rwymedigaethau craidd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

O ganlyniad, mae'r parodrwydd i dderbyn risg o reidrwydd tuag at ben isaf y sbectrwm ond, yn dibynnu ar ganlyniadau o flwyddyn i flwyddyn, mae'n bosibl dewis cynyddu neu leihau'r parodrwydd i dderbyn gweithgareddau risg uwch mewn rhannau penodol o'r busnes.

## Risgiau sy'n dod i'r amlwg

Yn 2025, sefydlodd y Porthladd broses fwy ffurfiol o nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg trwy ddadansoddiadau SWOT a PESTLE, ac mae wedi ymrwymo i wella sganio'r gorwel ymhellach yn 2026 trwy ychwanegu cofrestr sganio'r gorwel i'r system rheoli risg. Bydd y broses yn cael ei chynnal gan y Pwyllgor Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio ac yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd fel rhan o'r broses cynllunio strategol reolaidd.

## Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu'r busnes, a'r camau a gymerwyd i'w lliniaru, wedi'u nodi isod. Nid yw'r risgiau a'r ansicrwydd hyn yn cynnwys yr holl risgiau sy'n wynebu'r busnes ac nid ydynt o reidrwydd wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn flaenoriaeth.

| Risg | Camau Lliniaru |
|---|---|
| **Parhad gweithredol** | |
| Porthladd Aberdaugleddau yw prif borthladd ynni'r DU ac felly rydym yn cydnabod yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â tharfu ar y busnes. | Rydym yn cynnal ac yn arfer cyfres gadarn o gynlluniau wrth gefn a chynlluniau argyfwng, sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn barod pe bai tarfu'n digwydd. O ran risgiau gweithredol mwy cyffredinol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. I'r perwyl hwnnw, sefydlwyd System Rheoli Porthladd Integredig sy'n integreiddio sawl system reoli, megis ein System Rheoli Diogelwch, ein System Rheoli Amgylcheddol a'n System Rheoli Diogelwch Morol, er mwyn helpu i wella ein perfformiad yn barhaus. Mae'r systemau hyn yn dilyn y cylch Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu.<br><br>Fel porthladd, rydym yn cydnabod yr heriau y gallai newid hinsawdd eu cyflwyno i'n gweithrediadau mewn perthynas ag amlder patrymau tywydd mwy difrifol ac eithafol. Byddwn yn parhau i liniaru risgiau posibl trwy fonitro amodau tywydd ar y cyd â rhanddeiliaid, a thrwy gynyddu ein ffocws ar strategaethau gwydnwch a'r angen cynyddol am ddata hinsawdd cynhwysfawr.<br><br>Mae gan ddigwyddiadau a thensiynau geowleidyddol y potensial i effeithio ar ein busnes a busnesau ein cwsmeriaid. Pan fydd tensiynau o'r fath yn dod i'r amlwg, mae ein ffocws bob amser ar ddiogelwch a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar fusnes: rydym yn pennu ein blaenoriaethau ar gyfer cynnal gwydnwch gweithredol ac yn canolbwyntio ymdrechion ar liniaru er mwyn gallu dal ati i gynnal gweithrediadau diogel.<br><br>Mae'r byd digidol yn creu llawer o risgiau i fusnes, gyda risg gynyddol o ymosodiadau seiber. Rydym yn lliniaru'r risg o dor diogelwch trwy weithredu haenau lluosog o feddalwedd a phrosesau, gan gynnwys waliau tân, mynediad VPN (Rhwydwaith Preifat Rhithwir) a phrofion treiddio. Rydym yn monitro a phrofi effeithiolrwydd ein seilwaith diogelwch TG yn |

| | |
|---|---|
| | rheolaidd, ynghyd â'n gallu i amddiffyn rhag risgiau seiber nawr ac yn y dyfodol. |
| **Gwydnwch ariannol** | |
| Mae ein hofferynnau ariannol yn cynnwys benthyciadau, arian parod ac eitemau amrywiol fel dyledwyr masnachu a chredydwyr sy'n deillio'n uniongyrchol o'n gweithrediadau. Yn gyffredinol, nid yw newidiadau i gyfraddau cyfnewid yn effeithio ar ein busnes gan ein bod yn masnachu mewn sterling (GBP) gyda chwsmeriaid mawr, a dim ond yn achlysurol y mae arian cyfred heblaw sterling yn cael ei ddefnyddio. | Ein polisi yw sicrhau bod digon o gyllid ar gael bob amser at ddibenion gwydnwch. Rydym yn buddsoddi ein mantolen arian parod mewn banciau o'r DU gydag adneuon adenillion isel/risg isel. Rydym yn ariannu ein gweithrediadau gyda chymysgedd o enillion a gadwyd a dyled tymhorol. Mae benthyciadau ar gyfradd sefydlog neu yn seiliedig ar feincnodau cyfradd mynegai a gydnabyddir yn eang ac mae gennym gyfleuster credyd cylchol i gefnogi anghenion tymor byr a buddsoddiadau i'r dyfodol. Nid ydym yn chwilio am brosiectau risg uchel, adenillion uchel ac rydym yn ofalus wrth ddewis ein partneriaid masnachu a'n partneriaid mewn mentrau ar y cyd, lle mae hynny'n berthnasol. Rydym yn mabwysiadu rheolaethau ariannol yn unol ag arferion gorau y diwydiant. Mae'r argyfwng costau byw yn y DU yn fater esblygol sy'n effeithio ar ein gweithwyr yn ogystal â'r sefydliad. Rydym yn ceisio lliniaru effeithiau chwyddiant uchel gyda phenderfyniadau prisio ond rydym yn ymwybodol bod hyn yn fwy heriol mewn cyfnod o dwf economaidd araf. |
| **Anwadalrwydd refeniw** | |
| Yn draddodiadol, mae'r Porthladd wedi dibynnu ar y refeniw sy'n dod o dollau ar longau sy'n ymweld â'r terfynfeydd ynni ar y Ddyfrffordd. Gallai'r ddibyniaeth hon greu risg tymor byr o refeniw yn cael ei effeithio gan amrywiadau mawr yn y galw yn y diwydiant olew a nwy. Mae risg tymor hwy yn cael ei chyflwyno gan uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru a'r DU ac, wrth i'r model ynni ddatblygu, efallai y gwelwn newidiadau i'r ffordd y mae'r Ddyfrffordd yn cael ei defnyddio, gyda hynny'n gallu arwain at lai o incwm o dollau morgludiant o'r sectorau olew a nwy traddodiadol. | Mae sicrhau gwarant contractiol o gyfeintiau gan y terfynfeydd yn helpu/ceisio lliniaru'r risg o lefelau galw amrywiol ac yn galluogi'r Porthladd i ymgymryd â'r buddsoddiadau angenrheidiol i allu darparu gwasanaeth peilotiaeth dibynadwy a diogel. Mae'r Porthladd wedi cyflwyno ffrydiau refeniw newydd a fydd hefyd yn ein helpu i liniaru'r risg tymor byr o amrywiadau refeniw sylweddol, a'r risgiau tymor hwy o ostyngiad yn y galw am olew a nwy yn ogystal. Yn wyneb lefelau uwch o gymhlethdod ac ansicrwydd, bydd ein galluoedd risg a gwydnwch yn cymell canlyniadau gwell trwy drawsnewid ac arloesi. Mae ein buddsoddiadau ym Mhorthladd Penfro yn enghraifft o hyn, gyda'r nod o adeiladu porthladd modern sy'n gallu darparu atebion i'r genhedlaeth sefydledig o ddarparwyr ynni yn ogystal â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. |
| **Asedau addas i'r diben** | |
| Mae gennym amrywiaeth eang o asedau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid, ac rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i wneud y defnydd gorau o'r rhain. | Rydym wedi ymrwymo i sicrhau stiwardiaeth a gwaith chynnal a chadw digonol o ran ein hasedau. Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg, gan weithredu ein polisi Rheoli Asedau ac ymgymryd â'r hyn sy'n rhesymol ac ymarferol i sicrhau bod asedau yn parhau mewn cyflwr addas trwy gyfundrefn arolygu a chynnal a chadw gadarn. Rydym yn cydnabod y gallai newidiadau yn yr hinsawdd, fel lefel y môr yn codi, effeithio ar |

| | |
|---|---|
| | asedau'r Porthladd ac felly maen nhw'n cael eu hystyried fel rhan o broses asesu risg y Porthladd ac ystyriaethau Addasu i Newid Hinsawdd. |
| **Enw da a dylanwad** | |
| Mae'n bosibl i'n henw da a'n dylanwad gael eu heffeithio gan fethiannau mewnol, gan ddigwyddiadau allanol y tu allan i'n rheolaeth a thrwy reoli disgwyliadau ein rhanddeiliaid. | Yn ogystal â'n rheolaethau mewnol, mae Pwyllgor Cynghori Porthladd hirsefydlog ar waith ac mae rheolaeth dda gennym dros ein negeseuon a'n perthynas â'r cyfryngau trwy adran Cyfathrebu a Marchnata ragweithiol.<br><br>Rydym yn ail-fuddsoddi ein helw yn y busnes i sicrhau cynaliadwyedd y Porthladd yn y dyfodol, ac mae hynny yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar draws Sir Benfro a Chymru o ran creu swyddi a thwf economaidd. Mae gennym hefyd bwerau o fewn y Ddeddf i wneud buddsoddiadau sy'n debygol o ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol i boblogaeth gyfan neu ran o boblogaeth Sir Benfro.<br><br>Rydym wedi ymrwymo i wella profiad cwsmeriaid, effeithlonrwydd gweithredol a chynaliadwyedd gwasanaeth trwy ganolbwyntio ar ein gwerthoedd craidd, Diogelwch, Rhagoriaeth, Cydweithredu a Chynaliadwyedd. |
| **Rheoleiddio, llywodraethu a chydymffurfio** | |
| Fel porthladd ymddiriedolaeth, rydym yn cael ein llywodraethu gan Ddeddfau Seneddol. Yn ogystal, rydym yn mabwysiadu cod llywodraethu arferion gorau gan ddefnyddio dogfen ganllaw yr Adran Drafnidiaeth, "*Ports Good Governance Guidance*", i sicrhau porthladd ymddiriedolaeth effeithlon, atebol a chystadleuol. Y rhwymedigaethau ar y Porthladd felly yw (1) yn gyntaf oll i gydymffurfio â'i Ddeddfau, a (2) gweithredu i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol ac yn berthnasol i amgylchiadau penodol Porthladd Aberdaugleddau, yn unol â'r hyn a nodir yng nghanllawiau'r "*Ports Good Governance Guidance*". | Er mwyn bodloni a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r rhwymedigaethau hyn, rydym wedi datblygu Llawlyfr Llywodraethu, sefydlu Pwyllgor Archwilio a Risg ac wedi cynnal archwiliadau mewnol ac allanol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a safonau'r diwydiant, megis Cod Diogelwch Cyfleusterau Porthladd a Morol yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, wedi'u hategu gan ffocws parhaus ar sicrhau bod ein gweithwyr yn cydymffurfio â'r safonau uchaf o lywodraethu, cydymffurfio ac uniondeb ac yn canolbwyntio ar gyflawni ein strategaeth. Rydym yn cydnabod y risgiau hirdymor sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a chydymffurfio ag ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflawni economi carbon sero net erbyn 2050. Ar hyn o bryd, mae gwaith lliniaru yn cynnwys gwrthbwyso carbon, a byd y gwaith hwnnw'n parhau i esblygu wrth i dechnolegau newydd ddod i'r amlwg i gefnogi ein diwydiant i leihau ei ôl troed carbon. |
| **Diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau** | |
| Rydym yn cydnabod ein bod yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n peri risgiau diogelwch sylweddol. Mae ein gwerthoedd craidd – Diogelwch, Cydweithredu, Rhagoriaeth a | Mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu gan weithwyr ymroddedig, ac rydym yn ceisio creu amgylchedd lle maen nhw'n cael eu hysgogi a'u grymuso hyd eithaf eu gallu. Rydym yn mabwysiadu diwylliant diogelwch cadarnhaol trwy adrodd yn rhagweithiol am ddamweiniau, digwyddiadau, damweiniau fu bron â digwydd, pryderon a chyfleoedd i wella trwy ein Fframwaith Sicrwydd, sy'n rhan o strwythur Rheoli Risg cyffredinol y Grŵp |

| | |
|---|---|
| Chynaliadwyedd – yn ganolog i'n hygrededd ac yn rhoi'r hyder i'n tîm ddarparu gwasanaethau diogel a rhagorol. | sy'n nodi ein dull o ymdrin â risg gan sicrhau rheolaeth gynhwysfawr o risg yn ei holl ffurfiau. Er mwyn lliniaru risgiau ymddygiadol, rydym yn buddsoddi yn ein pobl trwy hyfforddiant a gwobrwyo ac wedi gweithredu cynllun cydnabyddiaeth gweithwyr. Rydym hefyd yn cynnal arolwg Great Place To Work™ i gasglu adborth i lywio ein gweithredoedd ac wedi sefydlu Hyrwyddwyr Lles a gweithredwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Mae ein harweinwyr yn gweithio'n galed i ymwreiddio ein gwerthoedd a'n gweledigaeth a meithrin diwylliant cadarnhaol. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r holl randdeiliaid i reoli'r gwahanol oblygiadau sy'n deillio o'r gwendidau economaidd a chymdeithasol presennol. Y brif flaenoriaeth yw diogelwch/lles ein pobl ac ymwelwyr â'n safleoedd. |

Mae'r Adroddiad Strategol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i lofnodi ar ran y Bwrdd.

*Sian George*

**Dr Siân George, Cadeirydd**

31 Mawrth 2026

Gorsewood Drive, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3EP

# LLYWODRAETHIANT

Mae Porthladd Aberdaugleddau yn fenter statudol annibynnol. Cafodd ei sefydlu gyntaf fel Bwrdd Gwarchodaeth Aberdaugleddau ym 1958 gan Ddeddf Seneddol benodol (Deddf Gwarchodaeth Aberdaugleddau 1958). Ym 1986, daeth y Bwrdd Gwarchodaeth yn Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (trwy Ddeddf Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 1986). Heddiw, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau yw'r awdurdod harbwr statudol a dyma ein henw cyfreithiol, er ein bod yn masnachu fel Porthladd Aberdaugleddau.

Mae fframwaith o Ddeddfau (gan gynnwys y ddwy a nodwyd uchod) yn ffurfio ein cyfansoddiad, gan ddiffinio beth y gallwn ei wneud a beth na allwn ei wneud a sut rydym yn cael ein llywodraethu. Maen nhw'n rhoi pwerau penodol i'r Porthladd o fewn terfynau diffiniedig y porthladd, er enghraifft, mewn perthynas â phennu'r rheolau ar gyfer mordwyo a'r grym i gyfarwyddo llongau. Mae rhwymedigaethau ynghlwm wrth y gwaith hefyd, megis y rhwymedigaeth i gynnal, gwella, diogelu a rheoleiddio mordwyo, a hawliau, megis yr hawl i godi ffioedd.

Mae Porthladd Aberdaugleddau yn borthladd ymddiriedolaeth. Nid ydym yn talu unrhyw ddifidend i gyfranddalwyr, nac yn derbyn cymorth cyllidebol uniongyrchol gan y llywodraeth. Rydym yn gweithredu ar sail fasnachol ac yn buddsoddi unrhyw elw dros ben yn ôl yn y busnes i gefnogi llwyddiant parhaus a hirdymor y Porthladd er budd ein rhanddeiliaid.

Yn ogystal â'r Deddfau, mae Porthladd Aberdaugleddau yn cydymffurfio â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth, *"Ports Good Governance Guidance"*. Mae'r canllawiau awdurdodol hyn, nad oes ganddynt unrhyw rym cyfreithiol, yn nodi egwyddorion didwylledd, atebolrwydd ac addasrwydd i'r diben wrth reoli porthladdoedd er budd eang y cyhoedd. Mae'n cwmpasu llywodraethiant corfforaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, darparu gwybodaeth, diogelwch a phynciau eraill. Ymdrinnir â llywodraethu fel rhan o Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn yr adran nesaf.

Ar gyfer adrodd ariannol, mae Porthladd Aberdaugleddau ynghyd â'i is-gwmnïau yn cynrychioli'r Grŵp.

Mae Cwmni Dociau Aberdaugleddau (Milford Docks Company) yn un o is-gwmnïau'r Grŵp. Y cwmni hwn yw'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer Dociau Aberdaugleddau. Mae swyddogaethau'r cwmni a'r Awdurdod Harbwr Statudol yn cael eu cyflawni gan y Porthladd.

# Y BWRDD A'R UWCH DÎM RHEOLI

Mae'r Bwrdd yn allweddol o ran llywio ein datblygiadau strategol a gweithredol. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol mewn sefyllfa dda i gefnogi ein strategaeth arallgyfeirio yn ogystal â'n gweithrediadau craidd. Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli yn atebol i'r Bwrdd am gyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni, gweithredu polisi'r Bwrdd a rheoli materion busnes y Porthladd a'r Grŵp.

*Dr Siân George, Cadeirydd* **BWRDD**

Mae gan Siân brofiad helaeth ar lefel Bwrdd, gyda ffocws nodedig ar agweddau morwrol, ynni a diogelwch. Mae hi'n cael ei chydnabod yn arbennig am ei phrofiad a'i gwybodaeth am y sector ynni adnewyddadwy morol, lle mae hi wedi bod yn llais cryf dros bolisi a diwygio rheoleiddiol yn y DU ac Ewrop. Mae wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i sicrhau dros €300m o fentrau cyllid cyhoeddus ar gyfer y sector ac wedi goruchwylio gweledigaeth strategol arobryn ar gyfer datblygu adnoddau ynni morol Ewrop. Mae gan Siân enw da am feithrin perthnasoedd adeiladol gyda rhanddeiliaid, a phrofiad helaeth o weithio mewn sectorau lle mae rheoleiddio a safonau diogelwch tu hwnt o drylwyr.

*Gareth Powell, Dirprwy Gadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Gyda dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae gan Gareth ddealltwriaeth eithriadol o weithrediadau busnes gyda ffocws penodol ar weithrediadau ariannol, llywodraethu, rheoli strategol, rheoli twf busnes a chydweddu rhanddeiliaid. Wedi'i hyfforddi fel Cyfrifydd Siartredig, rôl ddiweddaraf Gareth oedd Prif Swyddog Gweithredu BBC Cymru Wales. Roedd hefyd yn Aelod o Fwrdd BBC Cymru Wales.

*Debra Bowen Rees, Cyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Datblygodd Debra ei phrofiad helaeth ym maes cysylltu â rhanddeiliaid yn ystod ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol ym Maes Awyr Caerdydd. Mae ganddi ddealltwriaeth fanwl o amgylcheddau gwleidyddol a busnes Cymru, gan adeiladu ar brofiad a enillodd fel Uwch Swyddog yn y Lluoedd Arfog yn gweithio mewn meysydd swyddogaethol amrywiol ar draws a thu hwnt i'r llywodraeth, gan gynnwys ymgysylltu a dylanwad rhyngwladol. Fel Cyfarwyddwr Bwrdd profiadol, mae'n dod â dynameg bwysig i'r Bwrdd wrth iddo arallgyfeirio ac wrth i'w sylfaen rhanddeiliaid ehangu.

*James Nyhan, Cyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Mae James yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd ynghlwm wrth ynni amrywiol i'r Porthladd. Gyda dros 30 mlynedd o brofiad rhyngwladol yn y sector ynni, mae ganddo ddealltwriaeth glir o farchnadoedd ynni traddodiadol a rhai sy'n datblygu ar ôl gweithio mewn amrywiol rolau gyda Royal Dutch Shell. Mae'n cyflwyno profiad masnachol eang i'w rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol a'i nod yw parhau â'r cynnydd a wnaed ar ddatblygiadau ynni yn y Porthladd er budd cymuned ehangach y Gorllewin.

*Erica Cassin, Cyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Mae gan Erica dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector Adnoddau Dynol, ac mae wedi gweithio gyda llawer o enwau cyfarwydd. Mae hi'n angerddol am rymuso pobl i gyrraedd eu llawn botensial a meithrin amgylcheddau lle gall pob unigolyn ffynnu trwy gael bod yn nhw eu hunain. Yn hyfforddwr AD profiadol, mae hi wedi arwain trawsnewidiad sefydliadol sylweddol, gan ail-lunio cwmnïau a modelau busnes i addasu i ddatblygiadau yn amodau'r farchnad, wrth wella eu perfformiad a'u

heffeithiolrwydd. Mae cryfder Erica wrth arwain newid diwylliannol yn amhrisiadwy yn ei rôl ar Fwrdd y Porthladd, wrth iddo ganolbwyntio ar ei ddiwylliant ei hun yn ystod cyfnod cyffrous o arallgyfeirio.

*David Martin, Cyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Mae David wedi gweithio gyda Linklaters LLP ers 2000 ac mae'n Bartner ers 2012. Mae wedi gweithio yn swyddfeydd y cwmni yn Llundain, Abu Dhabi, Dubai a Hong Kong. Mae'n dod â chyfoeth o brofiad mewn prosiectau seilwaith yn y sectorau porthladdoedd, morgludiant a meysydd awyr, gyda phrofiad uniongyrchol ym maes porthladdoedd rhydd. Mae'n cael ei ystyried yn gynghorydd blaenllaw'r farchnad ar seilwaith digidol/telathrebu. Magwyd David yn Sir Benfro ac, yn sgil ei gysylltiadau teuluol cryf yn y sir ac yn arbennig Aberdaugleddau, mae'n parhau i fod yn ymwelydd cyson. Mae'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd.

*James Higham, Cyfarwyddwr Anweithredol* **BWRDD**

Mae gan James dros 35 mlynedd o brofiad mewn gweithrediadau yn sgil ei yrfa gyda'r Llynges Frenhinol. Roedd yn Brif Beiriannydd y Llynges yn arwain ar agweddau cymorth a pheirianneg holl longau'r Llynges Frenhinol a Llynges Gynorthwyol y Llynges Frenhinol, a gwasanaethodd hefyd fel Comander Canolfan y Llynges yn Portsmouth. Mae ganddo brofiad helaeth mewn diogelwch gweithredol ar y môr, risg ac arweinyddiaeth strategol, ac mae'n cynghori ar lefel Llywodraeth y DU.

*Richard 'Tom' Sawyer, Prif Weithredwr* **BWRDD, UWCH DÎM RHEOLI**

Yn eiriolwr angerddol dros y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan Sir Benfro a'r rhanbarth, ffocws Tom yw cymell perfformiad, cryfhau perthnasoedd presennol a datblygu cynigion cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd a'r Tîm Arwain i sicrhau bod gweithrediadau craidd y Porthladd yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth wrth oruchwylio'r bennod nesaf gyffrous yn nhrawsnewidiad parhaus y Porthladd.

*Jonathan Chitty, Prif Swyddog Ariannol* **BWRDD, UWCH DÎM RHEOLI**

Mae Jonathan yn sicrhau bod y busnes a'r Bwrdd yn cael eu cynghori'n briodol ar bob mater ariannol gyda phrofiad ar draws aml-sector, ac mewn rheolaeth ariannol a strategaeth. Mae hefyd yn gyfrifol am ymrwymiadau diogelwch, amgylcheddol ac ansawdd ar draws y Porthladd. Mae Jonathan yn meddu ar ddealltwriaeth fasnachol a gweithredol eang, sy'n canolbwyntio ar gynnal gwasanaethau craidd effeithiol wrth archwilio mentrau newydd.

*Mike Ryan, Harbwrfeistr* **BWRDD, UWCH DÎM RHEOLI**

Gyda chyfrifoldeb am ddefnydd diogel o'r Ddyfrffordd gan yr holl ddefnyddwyr, mae Mike yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r unedau busnes gweithredol i sicrhau bod ein gweithrediadau morol yn digwydd yn effeithiol, a'n bod ni'n cynnal lefel y gwasanaeth yn unol â disgwyliadau ein cwsmeriaid. Mae gan Mike brofiad helaeth o reoli sefyllfaoedd gweithredol cymhleth wedi ei feithrin yn ystod gyrfa hir yn y llynges. Mae ei ffocws ar gyflawni nodau strategol a gweithredol, ac ar wneud y gorau o effeithlonrwydd ac arferion gorau mewn amgylchedd gwaith diogel.

*Vidette Swales, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol* **UWCH DÎM RHEOLI**

Mae ffocws clir Vidette ar ddatblygu ein hased pwysicaf, ein pobl. Yn Gymrawd yn y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, mae gan Vidette dros 25 mlynedd o brofiad mewn rolau AD sy'n cwmpasu'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae hi'n gweithio'n agos gyda'r Bwrdd ac ar draws y busnes i ddarparu

profiad gwell i weithwyr ac yn sicrhau bod pawb mewn sefyllfa i gyflawni anghenion ein busnes amrywiol a chefnogi ein nodau unedig.

*Natalie Britton, Cyfarwyddwr Gweithrediadau* **UWCH DÎM RHEOLI**

Mae Natalie yn canolbwyntio ar gynnal rhagoriaeth weithredol ar draws ein gweithrediadau ar y tir. Yn Beiriannydd Cemegol cymwysedig, mae Natalie yn meddu ar gyfoeth o brofiad o'r sectorau cemegol, ynni a morol, ac mae ganddi brofiad gweithredol sylweddol gyda rhai o brif randdeiliaid y Porthladd ar y Ddyfrffordd.

*Matt Jones, Cyfarwyddwr Prosiect* **UWCH DÎM RHEOLI**

Gyda chyfoeth o brofiad o gyflawni prosiectau sefydliadol cymhleth ar lefelau gweithredol a strategol, mae Matt yn arwain ar gyflawni portffolio prosiectau uchelgeisiol y Porthladd. Ei nod yw sicrhau bod gweithgaredd prosiectau nawr ac yn y dyfodol yn ategu nodau hirdymor ac yn parhau i wella gweithgareddau gweithredol a chefnogi cyfleoedd masnachol trwy reoli newid yn effeithiol.

*Anna Malloy, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata* **UWCH DÎM RHEOLI**

Mae Anna yn arwain y gweithgareddau cyhoeddus, marchnata, cysylltiadau â'r cyfryngau, cynaliadwyedd a chysylltiadau cymunedol. Mae hi'n chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu perthnasoedd newydd a pherthnasoedd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys partneriaethau strategol fel y Porthladd Rhydd Celtaidd a Chlwstwr Ynni Aberdaugleddau, yn ogystal â phartneriaethau cymunedol lleol gyda grwpiau a sefydliadau elusennol. Ar ôl sicrhau sawl dyrchafiad ers cael ei phenodi'n Gynorthwyydd Marchnata 17 mlynedd yn ôl, mae Anna yn hyrwyddwr dros ddatblygu talent gyda gwreiddiau lleol.

**Datblygiadau:**
Ni welwyd unrhyw ddatblygiadau o ran y Bwrdd na'r Uwch Dîm Rheoli yn 2025.

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'u datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

## Prif weithgaredd ac adolygiad o'r busnes

Prif weithgaredd y Porthladd yw darparu gwasanaethau mordwyo a morol diogel ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Mae hyn, ynghyd â gweithgareddau eraill y Porthladd a'r Grŵp, a'r prif risgiau a'r rhagolygon, yn cael ei adolygu yn yr Adroddiad Strategol (sydd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth strategol sy'n ofynnol gan Atodlen 7 i'r Rheoliadau Cyfrifyddu yr ydym wedi dewis ei chynnwys yn yr adran honno o'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol).

## Bwrdd Porthladd Aberdaugleddau – Cadeirydd, Dr Siân George

Penderfynu ar strategaeth y Grŵp a'i gweithredu yw prif gylch gorchwyl y Bwrdd. Yn ogystal, y Bwrdd yn y pen draw sy'n gyfrifol am berfformiad gweithredol y Grŵp, gan gynnwys ei berfformiad o ran diogelwch. Mae felly'n rhan o rôl y Bwrdd i fonitro perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli a bodloni ei hun, trwy adolygu systemau a gweithdrefnau adrodd amrywiol gan gynnwys defnyddio cofrestrau risg, fod ein gweithrediadau'n cydymffurfio'n gyfreithiol, yn gweithredu i'r safonau diogelwch uchaf a chyda doethineb ariannol priodol.

Mae Deddf Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2002, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Adolygu Harbwr Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2012, yn nodi y bydd y Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, rhwng chwech ac wyth Cyfarwyddwr Anweithredol arall, y Prif Weithredwr a hyd at dri Chyfarwyddwr Gweithredol arall.

Penodir y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth trwy broses ddethol gystadleuol ac agored. Mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol arall yn cael ei benodi gan y Bwrdd ei hun trwy broses yr un mor agored. Ar gyfer unrhyw swydd ar y Bwrdd, gan gynnwys rôl y Cadeirydd, mae'r swydd yn cael ei hysbysebu, ac mae panel penodi sy'n cynnwys aelod annibynnol allanol yn cael ei gynnull i lunio rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr. Ym mhob achos, mae'r panel penodi yn argymell ei ddewis o ymgeisydd i'w benodi. Mae pob penodiad am dymor cychwynnol o dair blynedd sy'n unol â chanllawiau *"Ports Good Governance Guidance"* Llywodraeth y DU.

Mae recriwtio a phenodi Cyfarwyddwyr yn unol â chanllawiau a bennwyd gan y Llywodraeth ar gyfer pob porthladd ymddiriedolaeth ac mae'n dilyn yr hyn sy'n cael eu galw'n gyffredin yn 'egwyddorion Nolan'. Rhaid i bob Cyfarwyddwr gadw at yr egwyddorion ymddygiad arweiniol canlynol:

- Atebolrwydd
- Uniondeb
- Didwylledd
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth
- Anhunanoldeb
- Annibyniaeth
- Gwrthrychedd

Mae dyletswyddau Cyfarwyddwyr yn debyg i ddyletswyddau cyfarwyddwr cwmni; bod yn atebol am arfer swyddogaethau statudol y Porthladd yn briodol, nodi a gosod strategaeth a pholisïau busnes, cyflenwi gwasanaethau porthladd a harbwr a darparu goruchwyliaeth a chyfarwyddyd priodol mewn

perthynas â diogelwch gweithrediadau a pherfformiad ariannol yr holl weithgareddau busnes. Dylai dewis a phenodi Cyfarwyddwyr Anweithredol fod yn seiliedig ar bob unigolyn yn cyfrannu set sgiliau neu arbenigedd penodol i'r Bwrdd i gwmpasu'r penawdau canlynol:

- Cadeirydd
- Cyllid
- Rhanddeiliaid
- Masnachol
- AD
- Strategaeth
- Ynni
- Morol

Mae'n bosibl y bydd y setiau sgiliau hyn yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newid ym muddiannau busnes y Porthladd.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd, o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn cwrdd heb y Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac ar adegau heb y Cadeirydd, i adolygu gwaith cyffredinol y Bwrdd.

Cynhelir cofrestr o fuddiannau Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys tirddaliadau, cyfranddaliadau a chyfrifoldebau a phenodiadau eraill, ynghyd â'r gofyniad i nodi unrhyw faterion y gellid eu hystyried yn wrthdaro buddiannau. Mae'r Grŵp hefyd yn cynnal cofrestr lletygarwch ar gyfer yr holl Gyfarwyddwyr a rheolwyr i gofnodi lletygarwch allanol a dderbyniwyd.

## Pwyllgorau

Mae'r Bwrdd yn gweithredu'r pwyllgorau canlynol i gefnogi ei swyddogaethau:

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg – Cadeirydd, Gareth Powell

Diben: Ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â materion ariannol y Grŵp a chynnwys monitro adroddiadau ariannol, polisïau cyfrifyddu, materion sy'n ymwneud â'r archwilwyr, digonolrwydd y rheolaethau ariannol mewnol ac adolygu a monitro'r strategaeth risg gyffredinol, gan gynnwys y Polisi Rheoli Risg sy'n nodi Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am benodi, ailbenodi a gwaredu archwilwyr allanol a diogelu annibyniaeth yr archwilydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried yr holl adroddiadau archwilio mewnol perthnasol a risgiau i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Anweithredol gyda'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol hefyd yn bresennol. Cadeirydd y Pwyllgor hwn yw'r Cyfarwyddwr Anweithredol sydd â'r cefndir priodol o ran cyllid a risg.

### Y Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol – Cadeirydd, Erica Cassin

Diben: Penderfynu/adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd, gan ddefnyddio allbwn proses werthuso'r Bwrdd fel y bo'n briodol, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd, fel y bo'n berthnasol, mewn perthynas ag unrhyw newidiadau. Datblygu a goruchwylio polisïau ac arferion cydnabyddiaeth ariannol y Porthladd gan sicrhau eu bod yn briodol i ddenu a chadw'r sgiliau, y profiad, yr wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i gefnogi cyflawni strategaeth y Porthladd yn ogystal â fforddiadwyedd/cynaliadwyedd yn gyffredinol. Mae hefyd yn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol y Bwrdd a'r treuliau sy'n cael eu hawlio yn cael eu manylu yn y Cyfrifon Blynyddol. Mae'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd a dau Gyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr AD yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor (mewn rôl heb bleidlais).

### Pwyllgor Cynghori'r Porthladd – Cadeirydd, Debra Bowen Rees

Diben: Ar draws cymuned rhanddeiliaid Porthladd Aberdaugleddau, ennill a chynnal cefnogaeth ac eiriolaeth ar gyfer strategaeth a gweithrediadau'r Porthladd, a darparu barn eang rhanddeiliaid yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Yn ôl Adran 15 Deddf Gwarchodaeth Aberdaugleddau 1983, mae'n ofynnol i'r Porthladd gynnal Pwyllgor Cynghori mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Porthladd a'r defnydd o'r Ddyfrffordd. Mae'r canllawiau *"Ports Good Governance Guidance"* yn darparu cyngor clir i borthladdoedd bod ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn cynnal dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r Ddyfrffordd, ac i'r Porthladd ddeall barn rhanddeiliaid am y Ddyfrffordd a materion allweddol o'u safbwynt nhw. Mae'r swyddogaethau deuol hyn (un statudol ac un arfer gorau) yn cael eu cyflawni gan Bwyllgor Cynghori'r Porthladd. Mae aelodau'r pwyllgor hwn yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Anweithredol a thri Chyfarwyddwr Gweithredol i Borthladd Aberdaugleddau ynghyd â hyd at 22 o randdeiliaid eraill sy'n cynrychioli defnyddwyr masnachol o'r porthladd, y gymuned leol, defnyddwyr hamdden, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a'r economi leol.

## Mae'r Bwrdd hefyd yn uniongyrchol atebol am:

### Y tîm gweithredol

Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli yn atebol i'r Bwrdd am gyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni, gweithredu polisi'r Bwrdd a rheoli materion busnes y Porthladd a'r Grŵp. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cwrdd yn rheolaidd.

### Llywodraethiant corfforaethol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ymrwymo i safonau llywodraethiant corfforaethol uchel ac wedi gweithredu systemau llywodraethiant corfforaethol sy'n cydymffurfio ag egwyddorion canllawiau'r *"Ports Good Governance Guidance"* ac adrannau perthnasol Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU.

### Rhoddion elusennol a gwleidyddol

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r strategaeth Buddion Cymunedol sydd ynghlwm wrth y broses o roi rhoddion elusennol.

Mae canllawiau'r *"Ports Good Governance Guidance"* yn amlinellu ffyrdd y gall porthladdoedd ymddiriedolaeth ail-fuddsoddi gwarged i gefnogi llwyddiant parhaus a hirdymor porthladd er budd ei randdeiliaid. Yn ogystal â buddsoddi ar sail fasnachol, mae'n nodi y gall porthladd ymddiriedolaeth:

- fuddsoddi mewn seilwaith, gyda golwg tymor hwy nag y gellid ei ddisgwyl ar sail fasnachol yn unig;
- buddsoddi mewn seilwaith neu welliannau amgylcheddol i safon uwch neu raddau pellach, gan ddod â manteision mesuradwy i randdeiliaid;
- ymgymryd â gweithgareddau sydd ag elw masnachol is nag y byddai porthladd sector preifat yn ei wneud, ond sy'n darparu manteision i randdeiliaid, fel cymunedau lleol;
- darparu hyfforddiant ychwanegol i weithwyr lle mae'n helpu i ddatblygu'r sylfaen sgiliau lleol; a
- gwneud cyfraniadau elusennol neu ddyfarnu grantiau i brosiectau neu sefydliadau cymunedol.

Mae'r Porthladd yn cynnig amrywiaeth o roddion elusennol i achosion da lleol trwy ei Gronfa Gymunedol. Anogir elusennau, mudiadau gwirfoddol, sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yn Sir Benfro i wneud cais i'r Gronfa Gymunedol am gymorth. Cefnogwyd 48 o geisiadau

yn 2025. Pennwyd gwerth yn agos at £462,253 i raglen Cymorth Cymunedol ehangach y Porthladd (sy'n cynnwys y gronfa gymunedol) ar gyfer 2025.

Rydym wedi parhau i feithrin perthynas â Llywodraethau Cymru a'r DU. Roedd y gweithgaredd allweddol yn cynnwys:

- Cinio Gala Llafur Cymru (Tachwedd 27), £3,400+TAW

### Rheoli Mewnol a Rheoli Risg

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol y Grŵp. Mae system o'r fath yn darparu sicrwydd rhesymol ond nid absoliwt yn erbyn colledion materol neu gamddatganiad.

Mae'r gweithdrefnau allweddol sydd wedi'u sefydlu yn cynnwys strwythur sefydliadol gyda gweithdrefnau gweithredu clir, llinellau cyfrifoldeb ac awdurdod dirprwyedig. Yn benodol, mae gweithdrefnau wedi'u diffinio ar gyfer:

- buddsoddiad cyfalaf sy'n cwmpasu gwerthuso ac awdurdodi
- adrodd ariannol o fewn fframwaith cynllunio ariannol a chyfrifyddu cynhwysfawr
- archwilio mewnol i fonitro'r system rheoli mewnol
- rheoli risg, a
- chaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y DU a chanllawiau perthnasol eraill.

### Polisi buddsoddi

Polisi'r Grŵp yw sicrhau bod unrhyw fuddsoddiadau sy'n cael eu gwneud yn fasnachol hyfyw, gan ddarparu cynaliadwyedd i'r Grŵp, ei ddefnyddwyr, ei weithwyr a rhanddeiliaid eraill.

### Busnes gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r rhagolwg o sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Porthladd, yn erbyn y costau incwm gweithredol disgwyliedig, gwariant a chostau llog ar y cyd â sefyllfa ariannu'r Grŵp a'r Porthladd a chyfamodau bancio. Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod gan y Grŵp a'r Porthladd fwy na digon o adnoddau i barhau i weithredu am gyfnod o 12 mis o leiaf ar ôl cymeradwyo datganiadau ariannol 31 Rhagfyr 2025. Am y rheswm hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Porthladd.

### Rheoli risg ariannol

Mae'r Grŵp yn agored i risgiau ariannol o asedau a rhwymedigaethau sy'n destun llog. Er nad yw'r rhain yn sylweddol, mae'n bosibl iddyn nhw amlygu'r Grŵp i risgiau ariannol gan gynnwys risg cyfnewid tramor, risg cyfradd llog, risg credyd a risg hylifedd.

- Risg cyfnewid tramor: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r Grŵp yn gallu lliniaru risg cyfnewid tramor trwy ddefnyddio blaengontractau. Ar 31 Rhagfyr 2025, nid oedd gan y Grŵp unrhyw risg cyfnewid tramor berthnasol (2024: £dim).
- Risg cyfradd llog: Mae gan y Grŵp asedau sy'n destun llog sy'n cael eu buddsoddi ar gyfraddau llog gwahanol; mae penderfyniadau ar fecanweithiau diogelu cyfraddau llog yn digwydd fesul achos. Roedd amddiffyniad cyfraddau llog ar waith ar 31 Rhagfyr 2025 i liniaru rhywfaint o'r risg o

amrywiadau mewn cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn, ond dim yn y flwyddyn flaenorol oherwydd lefel isel benthyciadau blaenorol.

- Risg credyd: Nid oes gan y Grŵp unrhyw grynodiad sylweddol o risg credyd. Mae'r cwmni wedi gweithredu polisïau sy'n gofyn am wiriadau credyd priodol ar ddarpar gwsmeriaid cyn i unrhyw werthiannau ddigwydd. Dim ond gyda sefydliadau ariannol sydd â graddfeydd credyd uchel y mae asedau sy'n destun llog yn cael eu buddsoddi.
- Risg hylifedd: Mae'r Grŵp yn lliniaru risg hylifedd trwy gynnal cydbwysedd arian parod a buddsoddi mewn asedau tymor byr sy'n destun llog er mwyn caniatáu hyblygrwydd a pharhad cyllid. Ar 31 Rhagfyr 2025, mae gan y Grŵp gytundeb cyfleuster credyd y cytunwyd arno yn 2023, ochr yn ochr â benthyciad y cytunwyd arno gyda thymor ad-dalu o 20 mlynedd wedi 2023.

### Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Mae'r Grŵp yn cydnabod ei gyfrifoldebau i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan ei fusnes ac yn adolygu ei bolisïau ynghylch materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ôl yr angen. Mae unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu trafod yn yr Adroddiad Strategol. Mae unrhyw faterion yn unrhyw un o'r categorïau hyn a allai effeithio'n sylweddol ar fusnes y Grŵp yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y galw.

### Datblygiadau'r dyfodol

Mae manylion datblygiadau'r dyfodol yn cael sylw yn yr Adroddiad Strategol ac maen nhw'n rhan o'r adroddiad hwn.

## Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol wedi dod i'r amlwg ers dyddiad y fantolen.

## Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn yn cael eu datgelu ar dudalen 39.

## Indemniadau cyfarwyddwyr

Mae gan y Grŵp ddarpariaeth indemniad trydydd parti er budd y Cyfarwyddwyr sydd mewn grym ar ddyddiad yr adroddiad hwn. Mae'r ddarpariaeth indemniad hon yn berthnasol i Gyfarwyddwyr y Porthladd a Chyfarwyddwyr pob is-gwmni.

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd

Mae pob Cyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau: (1) cyn belled ag y gŵyr y Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; a (2) bod y Cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd, yn ei ddyletswydd fel Cyfarwyddwr, er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno. Rhoddir y cadarnhad hwn a dylid ei ddehongli yn unol â darpariaethau Adran 418 Deddf Cwmnïau 2006.

## Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Bwrdd 2025

| | Bwrdd | Pwyllgor Archwilio a Risg | Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol | Pwyllgor Cynghori'r Porthladd |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfarfodydd | 6 | 6 | 6 | 2 |
| Aelodau'r Bwrdd | | | | |
| David Martin | 6 | | 5 | |
| Debra Bowen Rees | 6 | | 3[1] | 2 |
| Erica Cassin | 6 | | 6 | |
| Gareth Powell | 6 | 6 | | 2 |
| James Higham | 6 | 6 | | |
| James Nyhan | 6 | 6 | | |
| Jonathan Chitty* | 6 | 6** | | |
| Mike Ryan* | 6 | | 2[2] | 1 |
| Siân George | 6 (Cadeirydd) | | 6 | |
| Tom Sawyer* | 6 | 5** | 5 | 2 |

* Cyfarwyddwyr Gweithredol   ** Mynychwyr   [1] Ddim yn aelod ar ôl mis Mai   [2] Aelod o fis Gorffennaf

Cymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i lofnodi ar ran y Bwrdd.

Sian George

**Dr Siân George, Cadeirydd**

31 Mawrth 2026

Gorsewood Drive, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3EP

# DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl cyfraith cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r deddfau perthnasol), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. O dan gyfraith cwmnïau, ni chaiff cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion ariannol y Grŵp a'r Porthladd ac elw neu golled y Grŵp a'r Porthladd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, bydd gofyn i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac wedyn eu rhoi ar waith yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Porthladd yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac esbonio trafodiadau'r Grŵp a'r Porthladd ac i ddatgelu'n gymharol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Porthladd ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006, yng nghyd-destun Deddf Harbyrau'r Deyrnas Unedig 1981. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Porthladd ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal uniondeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y Porthladd. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I'R AELODAU

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Porthladd Aberdaugleddau (y 'Porthladd') a'i is-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025 sy'n cynnwys cyfrif elw a cholled y grŵp, datganiad incwm cynhwysfawr y grŵp, mantolen y grŵp, mantolen y cwmni, datganiad y grŵp o newidiadau mewn ecwiti, datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti, datganiad y grŵp o lif arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r Porthladd ar 31 Rhagfyr 2025 ac o elw'r grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ein barn

Rydym wedi cyflawni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU (ISA (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol* yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp a'r Porthladd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd y cyfarwyddwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi gweld unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp a'r Porthladd i barhau i fod yn fusnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall a, heblaw am yr hyn a fynegwn yn benodol yn ein hadroddiad, ni fynegwn unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt. Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan i raddau perthnasol. Os byddwn yn gweld anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau sy'n ymddangos yn berthnasol, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os ydym yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennym, fod yr wybodaeth arall yma'n gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod ein harchwiliad:

- Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad strategol ac yn adroddiad y cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- Mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y gofynnir i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r grŵp a'r Porthladd a'u hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd wrthych chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Porthladd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oes ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na chawsant ymweliad gennym; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr a bennir yn ôl y gyfraith; neu
- na dderbyniwyd yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr

Fel sy'n cael ei esbonio'n llawnach yn y datganiad am gyfrifoldebau cyfarwyddwyr, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r cyfarwyddwyr yn teimlo sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Porthladd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r Porthladd neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod camddatganiad perthnasol bob tro. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd ein dull o nodi ac asesu'r risg o gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, fel a ganlyn:

- sicrhaodd y partner ymgysylltu fod y tîm ymgysylltu yn ei gyfanrwydd yn meddu ar y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- nodwyd y deddfau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r grŵp a'r Porthladd trwy drafodaethau gyda chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector perthnasol;
- canolbwyntiwyd ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem yn ystyried y gallent gael effaith berthnasol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r grŵp a'r Porthladd, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006;
- aseswyd hyd a lled y cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd uchod trwy holi rheolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol; a
- chyfathrebwyd cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd o fewn y tîm archwilio yn rheolaidd ac roedd y tîm yn parhau i gadw llygad ar agor am achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Aseswyd pa mor agored oedd datganiadau ariannol y grŵp a'r Porthladd i gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys mynnu dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- holi rheolwyr ynglŷn â ble roedden nhw o'r farn bod perygl o dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honiad o dwyll; ac
- ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau o dwyll a methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy duedd rheolwyr a diystyru rheolaethau, rydym wedi:

- perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthynas anarferol neu annisgwyl;
- profi cofnodion dyddlyfrau i nodi trafodion anarferol;
- asesu a oedd dyfarniadau a rhagdybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; ac
- ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion arwyddocaol neu anarferol.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifiwyd uchod. Po bellaf yw deddfau a rheoliadau o'r datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y byddwn yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl.

Gall camddatganiadau perthnasol sy'n codi oherwydd twyll fod yn anoddach i'w canfod na'r rhai sy'n deillio o gamgymeriad yn sgil y posibilrwydd o guddio bwriadol neu gynllwynio.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Adrannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

## Defnydd o'n hadroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lunio i aelodau'r Porthladd yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallwn ddatgan y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan mewn adroddiad archwilwyr i aelodau'r Porthladd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, ni dderbyniwn ac ni honnwn unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Porthladd ac aelodau'r Porthladd fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn na thros y farn a luniwyd gennym.



**Mr John Griffiths (Uwch Archwilydd Statudol)**

Gan ac ar ran UHY Hacker Young, Archwilydd Statudol
Cyfrifwyr Siartredig
Casnewydd
Gwent
Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2026





31 March 2026

Porthladd Aberdaugleddau

mhpa.co.uk